OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 Rhif 3223 (Cy. 328)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Integredig Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, a ddaw i rym ar 1 Ionawr 2015, yn gwneud darpariaeth, o ran Cymru, ar gyfer gweithredu'r Rheoliadau Ewropeaidd (fel y'u diffinnir yn rheoliad 2(1)) cysylltiedig eraill sy'n ymwneud â gweinyddu Polisi Amaethyddol Cyffredin yr Undeb Ewropeaidd. Mae unrhyw gyfeiriad yn y Nodyn hwn at Reoliad yn gyfeiriad at y Rheoliad hwnnw fel y'i diffinnir yn rheoliad 2(1).

Mae Rhan 2 (rheoliadau 3 i 12) yn pennu darpariaethau ar reoli a gorfodi mewn perthynas â thaliadau a wneir yn uniongyrchol ("taliadau uniongyrchol") i ffermwyr o dan y Rheoliad Taliadau Uniongyrchol , a thaliadau datblygu gwledig ("taliadau DG") o dan y Rheoliad Datblygu Gwledig.

Mae rheoliad 3 yn pennu mai'r dyddiad olaf y ceir cyflwyno cais sengl, cais am gymorth neu gais am daliad i Weinidogion Cymru yw 15 Mai, neu'r diwrnod gwaith dilynol os yw 15 Mai yn ddydd Sadwrn, dydd Sul, Gŵyl Banc neu ŵyl gyhoeddus arall.

Mae rheoliad 4 yn rhagnodi maint lleiaf parsel amaethyddol y ceir gwneud cais sengl mewn perthynas ag ef.

Mae rheoliad 5 yn darparu bod ad-daliad sy'n ddyledus gan fuddiolwr taliad uniongyrchol yn adenilladwy fel dyled; a rheoliad 6 yn darparu ar gyfer y gyfradd llog y caniateir ei chodi ar yr ad-daliad hwnnw.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2014 No. 3223 (W. 328)

# AGRICULTURE, WALES

## The Common Agricultural Policy (Integrated Administration and Control System and Enforcement and Cross Compliance) (Wales) Regulations 2014

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations, which come into force on 1st January 2015 make provision, in relation to Wales, for the implementation of the European Regulations (as defined in regulation 2(1)) relating to the administration of the Common Agricultural Policy of the European Union. Any reference in this Note to a Regulation is a reference to that EU Regulation as defined in regulation 2(1).

Part 2 (regulations 3 to 12) sets out provisions on control and enforcement in relation to payments granted directly to farmers under the Direct Payments Regulation ("direct payments") and rural development payments under the Rural Development Regulation ("RD payments").

Regulation 3 specifies that the final date on which a single application, aid application or payment claim may be submitted to the Welsh Ministers is 15th May or the following working day if 15th May is a Saturday, Sunday, Bank Holiday or other public holiday.

Regulation 4 prescribes the minimum size of agricultural parcel in respect of which a single application may be made.

Regulation 5 provides that a repayment due from the beneficiary of a direct payment is recoverable as a debt and regulation 6 provides for the rate of interest that may be charged on that repayment.

Mae rheoliadau 7 ac 8 yn rhoi pwerau mynediad ac archwilio i bersonau a awdurdodir gan Weinidogion Cymru at ddibenion gorfodi. Mae rheoliad 9 yn gwneud yn ofynnol bod personau penodol yn cynorthwyo personau awdurdodedig ar gais personau o'r fath.

Mae rheoliad 10 yn creu troseddau a chosbau. Mae rheoliad 11 yn cynnwys darpariaethau ynghylch atebolrwydd cyfarwyddwyr, a rheoliad 12 yn ymwneud ag achosion cyfreithiol yn erbyn cyrff corfforaethol, partneriaethau a chymdeithasau anghorfforedig.

Mae Rhan 3 yn gweithredu Erthyglau 91 i 101(trawsgydymffurfio) o'r Rheoliad Llorweddol, a Rheoliadau cysylltiedig a wnaed o dan Erthygl 101 ac yn gosod gofynion ychwanegol ar fuddiolwyr taliadau uniongyrchol a thaliadau DG penodol sy'n ymwneud â safonau ar gyfer cyflwr amaethyddol ac amgylcheddol da, fel y'u rhagnodir yn Atodlen 1. Mae Atodlen 2 yn rhestru eithriadau o'r gofynion hynny. Mae'r darpariaethau hyn yn disodli Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Trawsgydymffurfio) (Cymru) 2004 (O.S. 2001/3280 (Cy. 284)) fel y'u diwygiwyd, a ddirymir gan reoliad 15(1) ac Atodlen 3.

Mae Rhan 4 yn gwneud darpariaeth ar gyfer dirymiadau ac arbedion (rheoliad 15 ac Atodlen 3). Mae paragraffau (1) i (4) o reoliad 15, ac Atodlen 3, yn dirymu, gydag arbedion, Reoliadau blaenorol sy'n darparu ar gyfer gorfodi'r Polisi Amaethyddol Cyffredin.

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi ei baratoi, o effeithiau'r Rheoliadau hyn ar gostau busnesau fferm yng Nghymru. Gellir cael copi gan yr Adran Dyfodol Cynaliadwy, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Regulations 7 and 8 confer powers of entry and inspection on persons authorised by the Welsh Ministers for enforcement purposes. Regulation 9 requires certain persons to assist authorised persons on request.

Regulation 10 creates offences and penalties. Regulation 11 contains provisions relating to the liability of directors and regulation 12 relates to proceedings against bodies corporate, partnerships and unincorporated associations.

Part 3 implements Articles 91 to 101 (cross-compliance) of the Horizontal Regulation, and associated Regulations made under Article 101, and sets out further requirements on beneficiaries of direct payments and certain RD payments relating to the maintenance of standards for good agricultural and environmental condition as prescribed by Schedule 1. Schedule 2 lists exceptions from those requirements. These provisions replace the Common Agricultural Policy Single Payment and Support Schemes (Cross Compliance) (Wales) Regulations 2004 (S.I. 2001/3280 (W. 284)), as amended, which are revoked by regulation 15(1) and Schedule 3.

Part 4 makes provision for revocations and savings (regulation 15 and Schedule 3). Paragraphs (1) to (4) of regulation 15, and Schedule 3, revoke with savings previous Regulations which make provision for the enforcement of the Common Agricultural Policy.

A Regulatory Impact Assessment has been prepared, of the effects of these Regulations on the costs to farm businesses in Wales. Copies can be obtained from the Department of Sustainable Futures, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 Rhif 3223 (Cy. 328)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Integredig Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014

*Gwnaed* *8 Rhagfyr 2014*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *10 Rhagfyr 2014*

*Yn dod i rym* *1 Ionawr 2015*

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**)mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn yr adran honno, ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru yn hwylus dehongli unrhyw gyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at offerynnau'r UE fel cyfeiriadau at yr offerynnau hynny fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 a pharagraff 1A o Atodlen 2 i'r Ddeddf honno.

(**1**) O.S. 2010/2690.
(**2**) 1972 p.68. Diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p.51) a chan adran 3(3) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p.7) a Rhan 1 o'r Atodlen i'r Ddeddf honno. Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2014 No. 3223 (W. 328)

# AGRICULTURE, WALES

## The Common Agricultural Policy (Integrated Administration and Control System and Enforcement and Cross Compliance) (Wales) Regulations 2014

*Made* *8 December 2014*

*Laid before the National Assembly for Wales* *10 December 2014*

*Coming into force* *1 January 2015*

The Welsh Ministers are designated(**1**) for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972(**2**) in relation to the common agricultural policy of the European Union.

These Regulations make provision for a purpose mentioned in that section and it appears to the Welsh Ministers that it is expedient for any reference in these Regulations to EU instruments to be construed as a reference to those instruments as amended from time to time.

The Welsh Ministers make these Regulations in exercise of the powers conferred by section 2(2) of, and paragraph 1A of Schedule 2 to, the European Communities Act 1972.

(**1**) S.I. 2010/2690.
(**2**) 1972 c. 68. Section 2(2) was amended by section 27(1)(a) of the Legislative and Regulatory Reform Act 2006 (c. 51) and by section 3(3) of, and Part 1 of the Schedule to, the European Union (Amendment) Act 2008 (c. 7). Paragraph 1A of Schedule 2 was inserted by section 28 of the Legislative and Regulatory Reform Act 2006.

# RHAN 1

## CYFLWYNIAD

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Integredig Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ionawr 2015.

**Dehongli**

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "Rheoliad 1698/2005" ("*Regulation 1698/2005*") yw Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1698/2005 ar gefnogaeth i ddatblygu gwledig gan Gronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) etc(**1**);

ystyr "y Rheoliad Datblygu Gwledig" ("*the Rural Development Regulation*") yw Rheoliad (EU) Rhif 1305/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gefnogi datblygu gwledig gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig(**2**);

ystyr "y Rheoliad Dirprwyedig Datblygu Gwledig" ("*the Rural Development Delegated Regulation*") yw Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 807/2014 sy'n ychwanegu at y Rheoliad Datblygu Gwledig(**3**);

ystyr "y Rheoliad Dirprwyedig Llorweddol" ("*the Horizontal Delegated Regulation*") yw Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 640/2014 sy'n ychwanegu at Reoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran y system weinyddu a rheoli integredig a'r amodau ar gyfer gwrthod taliadau neu eu tynnu yn ôl a chosbau gweinyddol sy'n gymwys i daliadau uniongyrchol, cymorth ar gyfer datblygu gwledig a thrawsgydymffurfio(**4**);

ystyr "y Rheoliad Dirprwyedig Taliadau Uniongyrchol" ("*the Direct Payments Delegated Regulation*") yw Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 639/2014 sy'n ychwanegu at y Rheoliad Taliadau Uniongyrchol(**5**);

(**1**) OJ Rhif L 277, 21.10.2005, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EU) Rhif 1312/2011 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L 339, 21,12,20111, t.1).
(**2**) OJ Rhif L 347, 20.12.2013, t.487, fel y'i diwygiwyd gan Reoliad (EU) Rhif 1310/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L. 347, 20.12.2013, t.865).
(**3**) OJ Rhif L 227, 31.7.2014, t.1.
(**4**) OJ Rhif L 181. 20.6.2014, t.48.
(**5**) OJ Rhif L 181, 20.6.2014, t.1.

# PART 1

## INTRODUCTION

**Title, application and commencement**

**1.**—(1) The title of these Regulations is the Common Agricultural Policy (Integrated Administration and Control System and Enforcement and Cross Compliance) (Wales) Regulations 2014.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

(3) These Regulations come into force on 1st January 2015.

**Interpretation**

**2.**—(1) In these Regulations—

"the Direct Payments Delegated Regulation" ("*y Rheoliad Dirprwyedig Taliadau Uniongyrchol*") means Commission Delegated Regulation (EU) No. 639/2014 supplementing the Direct Payments Regulation(**1**);

"the Direct Payments Implementing Regulation" ("*y Rheoliad Gweithredu Taliadau Uniongyrchol*") means Commission Implementing Regulation (EU) No. 641/2014 laying down rules for the application of the Direct Payments Regulation(**2**);

"the Direct Payments Regulation" ("*y Rheoliad Taliadau Uniongyrchol*") means Regulation (EU) No. 1307/2013 of the European Parliament and of the Council establishing rules for direct payments to farmers under support schemes within the framework of the common agricultural policy(**3**);

"the European Regulations" ("*y Rheoliadau Ewropeaidd*") means—

(a) the Direct Payments Regulation;
(b) the Direct Payments Delegated Regulation;
(c) the Direct Payments Implementing Regulation;
(d) the Horizontal Regulation;
(e) the Horizontal Delegated Regulation;
(f) the Horizontal Finance Implementing Regulation;
(g) the Horizontal Implementing Regulation;
(h) the Rural Development Regulation;
(i) the Rural Development Delegated Regulation; and

(**1**) OJ No. L 181, 20.6.2014, p. 1.
(**2**) OJ No. L 181, 20.6.2014, p. 74.
(**3**) OJ No. L 347, 20.12.2013, p. 608, as amended by Regulation (EU) No. 1310/2013 (OJ No. L 347, 20.12.2013, p. 865).

ystyr “y Rheoliad Gweithredu Cyllid Llorweddol” (“*the Horizontal Finance Implementing Regulation*”) yw Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn (EU) Rhif 908/2014 sy’n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a’r Cyngor ar gyllido, rheoli a monitro’r polisi amaethyddol cyffredin(**1**);

ystyr “y Rheoliad Gweithredu Datblygu Gwledig” (“*the Rural Development Implementing Regulation*”) yw Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn (EU) Rhif 808/2014 sy’n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso’r Rheoliad Datblygu Gwledig(**2**);

ystyr “y Rheoliad Gweithredu Llorweddol” (“*the Horizontal Implementing Regulation*”) yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 809/2014 sy’n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a’r Cyngor o ran y system weinyddu a rheoli integredig, mesurau datblygu gwledig a thrawsgydymffurfio(**3**);

ystyr “y Rheoliad Gweithredu Taliadau Uniongyrchol” (“*the Direct Payments Implementing Regulation*”) yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 641/2014 sy’n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso’r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol(**4**);

ystyr “y Rheoliad Llorweddol” (“*the Horizontal Regulation*”) yw Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a’r Cyngor ar gyllido, rheoli a monitro’r polisi amaethyddol cyffredin(**5**);

ystyr “y Rheoliad Taliadau Uniongyrchol” (“*the Direct Payments Regulation*”) yw Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a’r Cyngor sy’n gosod rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin(**6**);

ystyr “y Rheoliadau Ewropeaidd” (“*the European Regulations*”) yw—

(a) y Rheoliad Taliadau Uniongyrchol;

(b) y Rheoliad Dirprwyedig Taliadau Uniongyrchol;

(c) y Rheoliad Gweithredu Taliadau Uniongyrchol;

(d) y Rheoliad Llorweddol;

(e) y Rheoliad Dirprwyedig Llorweddol;

(**1**) OJ Rhif L 255, 28.8.2014, t.59.
(**2**) OJ Rhif L 227, 31.7.2014, t.18.
(**3**) OJ Rhif L 227, 31.7.2014, t.69.
(**4**) OJ Rhif L 181, 20.6.2014, t.74.
(**5**) OJ Rhif L 347, 20.12.2013, t.549, fel y’i diwygiwyd gan Reoliad (EU) Rhif 1310/2013 Senedd Ewrop a’r Cyngor (OJ Rhif L 347, 20.12.2013, t.865).
(**6**) OJ Rhif L 347, 20.12.2013, t.608, fel y’i diwygiwyd gan Reoliad (EU) Rhif 1310/2013 (OJ Rhif L 347, 20.12.2013, t.865).

(j) the Rural Development Implementing Regulation.;

“the Horizontal Delegated Regulation” (“*y Rheoliad Dirprwyedig Llorweddol*”) means Commission Delegated Regulation (EU) No. 640/2014 supplementing Regulation (EU) No. 1306/2013 of the European Parliament and of the Council with regard to the integrated administration and control system and conditions for refusal or withdrawal of payments and administrative penalties applicable to direct payments, rural development support and cross compliance(**1**);

“the Horizontal Finance Implementing Regulation” (“*y Rheoliad Gweithredu Cyllid Llorweddol*”) means Commission Implementing Regulation (EU) No. 908/2014 laying down rules for the application of Regulation (EU) No. 1306/2013 of the European Parliament and of the Council on the financing, management and monitoring of the common agricultural policy(**2**);

“the Horizontal Implementing Regulation” (“*y Rheoliad Gweithredu Llorweddol*”) means Commission Implementing Regulation (EU) No. 809/2014 laying down rules for the application of Regulation (EU) No. 1306/2013 of the European Parliament and of the Council with regard to the integrated administration and control system, rural development measures and cross compliance(**3**);

“the Horizontal Regulation” (“*y Rheoliad Llorweddol*”) means Regulation (EU) No. 1306/2013 of the European Parliament and of the Council on the financing, management and monitoring of the common agricultural policy(**4**);

“the Rural Development Regulation” (“*y Rheoliad Datblygu Gwledig*”) means Regulation (EU) No. 1305/2013 of the European Parliament and of the Council on support for rural development by the European Agricultural Fund for Rural Development(**5**);

“the Rural Development Delegated Regulation” (“*y Rheoliad Dirprwyedig Datblygu Gwledig*”) means Commission Delegated Regulation (EU) No. 807/2014 supplementing the Rural Development Regulation(**6**);

(**1**) OJ No. L 181. 20.6.2014, p.48.
(**2**) OJ No. L 255, 28.8.2014, p. 59.
(**3**) OJ No. L 227, 31.7.2014, p. 69.
(**4**) OJ No. L 347, 20.12.2013, p.549, amended by Regulation (EU) No. 1310/2013 of the European Parliament and of the Council (OJ No. L. 347, 20.12.2013, p.865).
(**5**) OJ No. L 347, 20.12.2013, p.487, amended by Regulation (EU) No. 1310/2013 of the European Parliament and of the Council (OJ No. L. 347, 20.12.2013, p.865).
(**6**) OJ No. L 227, 31.7.2014, p. 1.

(f) y Rheoliad Gweithredu Cyllid Llorweddol;

(g) y Rheoliad Gweithredu Llorweddol;

(h) y Rheoliad Datblygu Gwledig;

(i) y Rheoliad Dirprwyedig Datblygu Gwledig; a

(j) y Rheoliad Gweithredu Datblygu Gwledig.;

ystyr "cais sengl" ("*single application*") yw cais am daliadau uniongyrchol mewn perthynas â chynlluniau cymorth ar sail arwynebedd;

mae i "cynlluniau cymorth ar sail arwynebedd" yr ystyr a roddir i "area-related aid schemes" gan bwynt (20) o'r ail is-baragraff o Erthygl 2(1) o'r Rheoliad Dirprwyedig Llorweddol;

mae i "buddiolwr", onid yw'r cyd-destun yn mynnu'n wahanol, yr ystyr a roddir i "beneficiary" gan is-baragraff (2) o Erthygl 2(1) o'r Rheoliad Dirprwyedig Llorweddol, ac eithrio mai'r ystyr yn Rhan 3 ac Atodlen 1 yw buddiolwr y mae Erthygl 91 o'r Rheoliad Llorweddol yn gymwys iddo;

mae i "ffermwr" yr ystyr a roddir i "farmer" gan Erthygl 4(1)(a) o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol;

mae i "methiant i gydymffurfio" yr ystyr a roddir i "non-compliance" gan bwynt (2)(b) o'r ail is-baragraff o Erthygl 2(1) o'r Rheoliad Dirprwyedig Llorweddol;

ystyr "person awdurdodedig" ("*authorised person*") yw unrhyw berson a awdurdodir gan Weinidogion Cymru, naill ai'n gyffredinol neu'n benodol, i weithredu mewn materion sy'n codi o dan y Rheoliadau hyn;

mae i "taliadau uniongyrchol" yr ystyr a roddir i "direct payments" gan Erthygl 2(1)(e) o'r Rheoliad Llorweddol;

"the Rural Development Implementing Regulation" ("*y Rheoliad Gweithredu Datblygu Gwledig*") means Commission Implementing Regulation (EU) No. 808/2014 laying down rules for the application of the Rural Development Regulation(**1**);

"Regulation 1698/2005" ("*Rheoliad 1698/2005*") means Council Regulation (EC) No. 1698/2005 on support for rural development by the European Agricultural Fund for Rural Development (EAFRD) etc(**2**);

"area-related aid schemes" ("*cynlluniau cymorth ar sail arwynebedd*") has the meaning given by point (20) of the second sub-paragraph of Article 2(1) of the Horizontal Delegated Regulation;

"authorised person" ("*person awdurdodedig*") means any person who is authorised by the Welsh Ministers, either generally or specifically, to act in relation to matters arising under these Regulations;

"beneficiary" ("*buddiolwr*"), unless the context otherwise requires, has the meaning given by sub-paragraph (2) of Article 2(1) of the Horizontal Delegated Regulation except that in Part 3 and Schedule 1 it means a beneficiary to whom Article 91 of the Horizontal Regulation applies;

"direct payments" ("*taliadau uniongyrchol*") has the meaning given by Article 2(1)(e) of the Horizontal Regulation;

"farmer" ("*ffermwr*") has the meaning given by Article 4(1)(a) of the Direct Payments Regulation;

"non-compliance" ("*methiant i gydymffurfio*") has the meaning given by point (2)(b) of the second sub-paragraph of Article 2(1) of the Horizontal Delegated Regulation;

"single application" ("*cais sengl*") means an application for direct payments in relation to area-related aid schemes.

(2) Mae i dermau eraill, a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn ac y defnyddir eu cyfystyron Saesneg hefyd mewn unrhyw un o'r Rheoliadau Ewropeaidd, yr ystyron sydd i'w cyfystyron yn y Rheoliadau Ewropeaidd.

(2) Other terms used in these Regulations that are also used in any of the European Regulations have the meaning they bear in those Regulations.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at unrhyw un o'r Rheoliadau Ewropeaidd yn gyfeiriad at yr offerynnau hynny fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.

(3) Any reference in these Regulations to any of the European Regulations is a reference to those Regulations as amended from time to time.

(**1**) OJ No. L 227, 31.7.2014, p. 18.
(**2**) OJ No. L 277, 21.10.2005, p. 1, as last amended by Regulation (EU) No 1312/2011 of the European Parliament and of the Council (OJ No. L 339, 21,12,20111, p. 1).

# RHAN 2

## SYSTEM INTEGREDIG GWEINYDDU A RHEOLI A GORFODI

**Ceisiadau**

**3.**—(1) At ddibenion Erthygl 13(1) o'r Rheoliad Gweithredu Llorweddol ac Erthygl 12 o'r Rheoliad Dirprwyedig Llorweddol, y dyddiad olaf pan geir cyflwyno cais sengl, cais am gymorth neu hawliad am daliad i Weinidogion Cymru yw 15 Mai neu, os yw 15 Mai yn ddydd Sadwrn, dydd Sul, Gŵyl Banc neu ŵyl gyhoeddus arall, y diwrnod gwaith nesaf.

(2) Ym mharagraff (1)—

(a) ystyr "Gŵyl Banc" ("*Bank Holiday*") yw diwrnod a bennir ym mharagraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971 (**1**);

(b) ystyr "hawliad am daliad" ("*payment claim*") yw hawliad am gymorth o dan y system integredig fel y darperir gan Erthygl 67(2) o'r Rheoliad Llorweddol; ac

(c) ystyr "diwrnod gwaith" ("*working day*") yw diwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn, dydd Sul, Gŵyl Banc nac yn ŵyl gyhoeddus arall.

**Maint lleiaf o arwynebedd amaethyddol**

**4.** At ddibenion Erthygl 72(1) o'r Rheoliad Llorweddol, y maint lleiaf o barsel amaethyddol y ceir gwneud cais sengl mewn perthynas ag ef yw 0.1 hectar.

**Adennill taliadau annyladwy**

**5.**—(1) Pan fo buddiolwr yn atebol i ad-dalu'r cyfan neu ran o daliad uniongyrchol yn unol ag Erthygl 7(1) o'r Rheoliad Gweithredu Llorweddol, mae swm yr ad-daliad, ynghyd â llog ar y swm hwnnw a gyfrifir yn unol â rheoliad 6, yn adenilladwy fel dyled.

(2) Mewn unrhyw achos cyfreithiol a ddygir yn unol â pharagraff (1), mae tystysgrif gan Weinidogion Cymru sydd—

(a) yn pennu'r gyfradd llog a gynigir rhwng banciau Llundain (LIBOR) sy'n gymwys yn ystod cyfnod penodedig; a

(b) yn cynnwys datganiad i'r perwyl bod Banc Lloegr neu'r corff cydgysylltu wedi hysbysu Gweinidogion Cymru o'r gyfradd honno am y cyfnod hwnnw,

(**1**) 1971, p.80.

# PART 2

## INTEGRATED ADMINISTRATION AND CONTROL SYSTEM AND ENFORCEMENT

**Applications**

**3.**—(1) For the purposes of Article 13(1) of the Horizontal Implementing Regulation and Article 12 of the Horizontal Delegated Regulation, the final date on which a single application, aid application or payment claim may be submitted to the Welsh Ministers is 15th May or, if 15th May is a Saturday, Sunday, Bank Holiday or other public holiday, the next working day.

(2) In paragraph (1)—

(a) "Bank Holiday" ("*Gŵyl Banc*") means a day specified in paragraph 1 of Schedule 1 to the Banking and Financial Dealings Act 1971(**1**);

(b) "payment claim" ("*hawliad am daliad*") means a claim for support under the integrated system as provided by Article 67(2) of the Horizontal Regulation;

(c) "working day" ("*diwrnod gwaith*") means a day which is not a Saturday, Sunday, Bank Holiday or other public holiday.

**Minimum size of agricultural area**

**4.** For the purposes of Article 72(1) of the Horizontal Regulation, the minimum size of an agricultural parcel in respect of which a single application may be made is 0.1 hectare.

**Recovery of undue payments**

**5.**—(1) Where a beneficiary is liable to repay all or part of a direct payment in accordance with Article 7(1) of the Horizontal Implementing Regulation, the amount of the repayment, together with the interest on that amount calculated in accordance with regulation 6, is recoverable as a debt.

(2) In any legal proceedings brought pursuant to paragraph (1), a certificate of the Welsh Ministers which—

(a) sets out the London interbank offered rate (LIBOR) applicable during a specified period; and

(b) includes a statement that the Bank of England or the coordinating body notified the Welsh Ministers of that rate for that period,

(**1**) 1971, c. 80.

(c) yn dystiolaeth o’r gyfradd sy’n gymwys yn ystod y cyfnod hwnnw.

(3) Yn y rheoliad hwn, mae i “corff cydgysylltu” yr ystyr a roddir i “coordinating body” gan Erthygl 7(4) o’r Rheoliad Llorweddol.

### Llog

**6.**—(1) Ceir codi llog mewn perthynas â phob diwrnod o’r cyfnod y cyfeirir ato yn Erthygl 7(2) o’r Rheoliad Gweithredu Llorweddol, ac at y diben hwn y gyfradd llog sy’n gymwys ar unrhyw ddiwrnod yw un pwynt canran uwchlaw cyfradd sterling dri-misol Llundain a gynigir rhwng banciau (LIBOR) ar y diwrnod hwnnw.

### Pwerau mynediad

**7.**—(1) Caiff person awdurdodedig arfer unrhyw rai o’r pwerau a bennir yn y rheoliad hwn ac yn rheoliadau 8 a 9 at y diben o—

(a) gorfodi—

(i) y Rheoliadau Ewropeaidd ac eithrio Penodau III a IV o Deitl V o’r Rheoliad Llorweddol; neu

(ii) y Rheoliadau hyn;

(b) darparu adroddiad rheoli, yn yr ystyr a roddir i “control report” yn Erthygl 54(1) o’r Rheoliad Llorweddol;

(c) penderfynu a ddigwyddodd unrhyw fethiant i gydymffurfio.

(2) Caiff person awdurdodedig, ar bob adeg resymol, ac ar ôl dangos ei awdurdod os gofynnir iddo, fynd i mewn i unrhyw fangre, ac eithrio mangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu’n bennaf fel annedd breifat.

(3) Nid yw paragraff (2) yn effeithio ar unrhyw hawl mynediad a roddir gan warant a ddyroddir yn unol â pharagraff (4).

(4) Caiff ynad heddwch, drwy warant lofnodedig, roi caniatâd i berson awdurdodedig fynd i mewn ar unrhyw dir neu i unrhyw fangre, a hynny, pan fo angen, gan ddefnyddio grym rhesymol, os bodlonir yr ynad, ar sail tystiolaeth ysgrifenedig a roddwyd ar lw—

(a) bod sail resymol i berson awdurdodedig fynd i mewn i’r fangre at unrhyw ddiben a grybwyllir ym mharagraff (1); a

(b) y bodlonir un o’r amodau ym mharagraff (5).

(5) Yr amodau yw —

(a) bod mynediad i’r fangre wedi ei wrthod, neu’n debygol o gael ei wrthod, ac—

(c) is evidence of the rate applicable during that period.

(3) In this regulation, “the coordinating body” (“*corf cydgysylltu*”) means the coordinating body referred to in Article 7(4) of the Horizontal Regulation.

### Interest

**6.**—(1) Interest may be charged in respect of each day of the period referred to in Article 7(2) of the Horizontal Implementing Regulation and for this purpose the rate of interest applicable on any day is one percentage point above the sterling three month London interbank offered rate (LIBOR) on that day.

### Powers of entry

**7.**—(1) An authorised person may exercise any of the powers specified in this regulation and regulations 8 and 9 for the purpose of—

(a) enforcing—

(i) the European Regulations except Chapters III and IV of Title V of the Horizontal Regulation; or

(ii) these Regulations;

(b) providing a control report in accordance with Article 54(1) of the Horizontal Regulation;

(c) determining whether there has been a non-compliance.

(2) An authorised person, on producing, if so required, a duly authenticated document showing that person’s authority, may at any reasonable hour enter any land or premises other than premises used wholly or mainly as a private dwelling.

(3) Paragraph (2) does not affect any right of entry conferred by a warrant issued in accordance with paragraph (4).

(4) A justice of the peace may by signed warrant permit an authorised person to enter any land or premises, if necessary by reasonable force, if the justice, sworn on information in writing, is satisfied that—

(a) there are reasonable grounds for an authorised person to enter the land or premises for any purpose mentioned in paragraph (1); and

(b) one of the conditions in paragraph (5) is met.

(5) The conditions are that—

(a) entry to the land or premises has been refused, or is likely to be refused, and—

(i) hysbysiad o'r bwriad i wneud cais am warant wedi ei gyflwyno i'r meddiannydd, neu

(ii) na chyflwynwyd hysbysiad o'r fath i'r meddiannydd oherwydd byddai cyflwyno hysbysiad o'r fath yn tanseilio diben neu effeithiolrwydd y mynediad;

(b) bod gofyn mynd i mewn ar frys; neu

(c) bod y fangre'n wag, neu'r meddiannydd yn absennol dros dro.

(6) Mae gwarant yn ddilys am dri mis.

(7) Caiff person awdurdodedig sy'n mynd i mewn i unrhyw fangre yn rhinwedd y rheoliad hwn fynd â phersonau fel a ganlyn gydag ef—

(a) unrhyw gynrychiolydd y Comisiwn Ewropeaidd; a

(b) pha bynnag bersonau eraill a ystyrir gan y person awdurdodedig yn angenrheidiol at unrhyw ddiben a grybwyllir ym mharagraff (1).

(8) Rhaid i berson awdurdodedig sy'n mynd i mewn i unrhyw fangre wag adael y fangre honno wedi ei diogelu mor effeithiol ag yr oedd cyn iddo fynd i mewn iddi.

**Pwerau archwilio etc**

**8.**—(1) Caiff person awdurdodedig sydd wedi mynd i mewn i unrhyw fangre i arfer pŵer a roddir gan reoliad 7—

(a) cynnal unrhyw ymchwiliadau, gwiriadau, archwiliadau, mesuriadau a phrofion;

(b) cymryd samplau;

(c) archwilio'r cyfan neu unrhyw ran o'r tir, boed yn cael ei ffermio neu wedi ei dynnu'n ôl o ddefnydd amaethyddol, neu'r fangre;

(d) archwilio unrhyw dda byw, cnydau, peiriannau neu gyfarpar;

(e) marcio unrhyw anifail neu wrthrych arall at y diben o'i adnabod;

(f) mynnu cael mynediad at unrhyw ddogfennau neu gofnodion, eu harchwilio, eu copïo a'u hargraffu (ym mha bynnag ffurf y'u cedwir) neu symud ymaith y cyfryw ddogfennau er mwyn eu copïo neu'u cadw fel tystiolaeth;

(g) mynnu cael mynediad i unrhyw gyfrifiadur ac unrhyw ddeunyddiau neu gyfarpar cysylltiedig a ddefnyddir, neu a ddefnyddiwyd, mewn cysylltiad â'r dogfennau neu'r cofnodion, eu harchwilio a gwirio'r modd y'u gweithredir;

(h) tynnu ffotograff o unrhyw beth sydd ar y tir, neu ei gofnodi mewn ffurf ddigidol;

(i) cludo ymaith unrhyw beth y tybir yn rhesymol ei fod yn dystiolaeth o unrhyw fethiant i gydymffurfio;

(i) notice of the intention to apply for a warrant has been served on the occupier, or

(ii) no such notice has been served on the occupier because serving such a notice would interfere with the purpose or effectiveness of the entry;

(b) entry is required urgently; or

(c) the premises are unoccupied or the occupier is temporarily absent.

(6) A warrant is valid for three months.

(7) An authorised person entering any land or premises by virtue of this regulation may be accompanied by—

(a) any representative of the European Commission; and

(b) such other persons as the authorised person considers necessary for any purpose mentioned in paragraph (1).

(8) An authorised person who enters any unoccupied premises must leave them as effectively secured as they were before entry.

**Powers of inspection etc**

**8.**—(1) An authorised person who has entered any land or premises in exercise of a power conferred by regulation 7 may—

(a) carry out any inquiries, checks, examinations, measurements and tests;

(b) take samples;

(c) inspect all or any part of the land, whether it is farmed or is withdrawn from agricultural production, or premises;

(d) inspect any livestock, crops, machinery or equipment;

(e) mark any animal or other thing for identification purposes;

(f) have access to, inspect, copy and print any documents or records (in whatever form they are held) or remove such documents to enable them to be copied or retained as evidence;

(g) have access to, inspect and check the operation of, any computer and any associated apparatus or material which is or has been in use in connection with the documents or records;

(h) take a photograph of, or record in digital form, anything on the land;

(i) remove anything reasonably believed to be evidence of any non-compliance;

(j) symud carcas oddi ar y tir neu o'r fangre at y diben o gynnal archwiliad *post mortem* arno.

(2) Caiff person awdurdodedig sy'n mynd i mewn ar unrhyw dir neu i unrhyw fangre, o dan pŵer a roddir o dan ddeddfwriaeth arall, arfer unrhyw rai o'r pwerau a bennir yn y rheoliad hwn at y dibenion o orfodi'r Rheoliadau hyn.

(3) Mae paragraff (1) yn gymwys mewn perthynas â pherson y cyfeirir ato yn rheoliad 7(7)(b) pan fo'r person hwnnw'n gweithredu o dan gyfarwyddyd person awdurdodedig, fel pe bai'r person hwnnw yn berson awdurdodedig.

**Cymorth i bersonau awdurdodedig**

**9.** Rhaid i'r buddiolwr mewn perthynas ag unrhyw dir neu fangre yr eir i mewn iddo neu iddi gan berson awdurdodedig wrth arfer pŵer a roddir gan reoliad 7, ac unrhyw gyflogai, gwas neu asiant y buddiolwr hwnnw, roi i berson awdurdodedig ("PA") pa bynnag gymorth y gofynnir amdano yn rhesymol gan PA, i alluogi PA i arfer unrhyw bŵer a roddir iddo gan reoliad 7 neu 8.

**Troseddau a chosbau**

**10.**—(1) Cyflawnir trosedd gan unrhyw berson sydd—

(a) yn fwriadol yn rhwystro unrhyw berson rhag gweithredu i gyflawni'r Rheoliadau hyn;

(b) heb achos rhesymol, y byddai'n ofynnol i'r person ei hunan ei brofi, yn methu â rhoi i unrhyw berson sy'n gweithredu i gyflawni'r Rheoliadau hyn unrhyw gymorth neu wybodaeth y gofynnir yn rhesymol amdano neu amdani gan y person hwnnw o dan y Rheoliadau hyn; neu

(c) gan wybod hynny neu'n ddi-hid, yn rhoi i unrhyw berson sy'n gweithredu i gyflawni'r Rheoliadau hyn unrhyw wybodaeth sy'n anwir neu'n gamarweiniol mewn unrhyw fanylyn perthnasol.

(2) Mae person sy'n euog o drosedd o dan baragraff (1)(a) neu (b) yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol.

(3) Mae person sy'n euog o drosedd o dan baragraff (1)(c) yn agored—

(a) o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy nad yw'n fwy na'r uchafswm statudol, neu i'w garcharu am gyfnod na fydd yn hwy na thri mis, neu'r ddau; neu

(b) o'i gollfarnu ar dditiad, i ddirwy, neu i'w garcharu am gyfnod na fydd yn hwy na dwy flynedd, neu'r ddau.

(j) remove a carcase on the land or premises for the purpose of carrying out a post-mortem examination on it.

(2) An authorised person who enters any land or premises under a power under other legislation may exercise any of the powers specified in this regulation for the purposes of enforcing these Regulations.

(3) Paragraph (1) applies in relation to a person referred to in regulation 7(7)(b) when such person is acting under the instructions of an authorised person, as if such person were an authorised person.

**Assistance to authorised persons**

**9.** The beneficiary in respect of any land or premises entered by an authorised person in exercise of a power conferred by regulation 7 and any employee, servant or agent of that beneficiary, must give an authorised person ("AP") such assistance as AP may reasonably request so as to enable AP to exercise any power conferred on AP by regulation 7 or 8.

**Offences and penalties**

**10.**—(1) It is an offence for any person to—

(a) intentionally obstruct any person acting in execution of these Regulations;

(b) without reasonable cause, proof of which lies with that person, fail to give any person acting in execution of these Regulations any assistance or information that that person may reasonably require under these Regulations; or

(c) knowingly or recklessly furnish to any person acting in execution of these Regulations any information that is false or misleading in any material particular.

(2) A person guilty of an offence under paragraph 1(a) or (b) is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 3 on the standard scale.

(3) A person guilty of an offence under paragraph (1)(c) is liable—

(a) on summary conviction, to a fine not exceeding the statutory maximum or to imprisonment for a term not exceeding three months, or both; or

(b) on conviction on indictment, to a fine, or to imprisonment for a term not exceeding two years, or both.

(4) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), am drosedd o dan baragraff (1) rhaid dwyn unrhyw achos cyfreithiol o fewn chwe mis o'r dyddiad y bydd tystiolaeth, sy'n ddigonol ym marn yr erlynydd i gyfiawnhau'r achos cyfreithiol, yn dod yn hysbys i'r erlynydd.

(5) Ni chaniateir cychwyn unrhyw achos cyfreithiol am drosedd o dan baragraff (1) fwy na dwy flynedd ar ôl dyddiad cyflawni'r drosedd.

(6) At ddibenion y rheoliad hwn, bydd tystysgrif a lofnodwyd gan neu ar ran yr erlynydd ac yn datgan ar ba ddyddiad y daeth tystiolaeth a oedd yn ddigonol ym marn yr erlynydd i gyfiawnhau dwyn yr achos cyfreithiol, yn hysbys i'r erlynydd, yn dystiolaeth ddigamsyniol o'r ffaith honno.

**Atebolrwydd cyfarwyddwyr etc**

**11.**—(1) Yn achos trosedd o dan reoliad 10 a gyflawnwyd gan gorff corfforaethol, os profir ei bod—

(a) wedi ei chyflawni gyda chydsyniad neu ymoddefiad swyddog, neu

(b) yn briodoladwy i unrhyw esgeulustod ar ran swyddog,

mae'r swyddog hwnnw, yn ogystal â'r corff corfforaethol, yn euog o'r drosedd ac yn agored i'w erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(2) Ym mharagraff (1), ystyr "swyddog" ("*officer*") yw—

(a) cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog cyffelyb arall y corff corfforaethol, neu

(b) person sy'n honni gweithredu yn rhinwedd unrhyw swydd o'r fath.

(3) Os rheolir busnes corff corfforaethol gan ei aelodau, mae paragraff (1) yn gymwys mewn perthynas â gweithredoedd ac anweithiau aelod mewn cysylltiad â swyddogaethau'r aelod o reoli, fel y mae'n gymwys i swyddog corff corfforaethol.

**Troseddau gan gyrff corfforaethol, partneriaethau a chymdeithasau anghorfforedig**

**12.**—(1) Ceir dwyn achos cyfreithiol am drosedd dan reoliad 10, yr honnir iddi gael ei chyflawni gan bartneriaeth neu gymdeithas anghorfforedig, yn erbyn y bartneriaeth neu'r gymdeithas yn enw'r bartneriaeth neu'r gymdeithas.

(2) At ddibenion achos cyfreithiol o'r fath, mae—

(a) rheolau llys sy'n ymwneud â chyflwyno dogfennau, ac

(4) Subject to paragraph (5), for an offence under paragraph (1) proceedings must be brought within the period of six months from the date on which evidence sufficient in the opinion of the prosecutor to justify proceedings came to the prosecutor's knowledge.

(5) No proceedings for an offence under paragraph (1) may begin more than two years after the date of the commission of the offence.

(6) For the purposes of this regulation, a certificate signed by or on behalf of the prosecutor and stating the date on which evidence sufficient, in the opinion of the prosecutor, to justify the proceedings came to their knowledge is conclusive of that fact.

**Liability of directors etc**

**11.**—(1) If an offence under regulation 10 committed by a body corporate is proved—

(a) to have been committed with the consent or connivance of an officer, or

(b) to be attributable to any neglect on the part of an officer,

the officer, as well as the body corporate, is guilty of the offence and liable to be proceeded against and punished accordingly.

(2) In paragraph (1), "officer" ("*swyddog*") means—

(a) a director, manager, secretary or other similar officer of the body, or

(b) a person purporting to act in any such capacity.

(3) If the affairs of a body corporate are managed by its members, paragraph (1) applies in relation to the acts and omissions of a member in connection with the member's functions of management as it applies to an officer of a body corporate.

**Offences by bodies corporate, partnerships and unincorporated associations**

**12.**—(1) Proceedings for an offence under regulation 10 alleged to have been committed by a partnership or unincorporated association may be brought against the partnership or association in the name of the partnership or association.

(2) For the purposes of such proceedings—

(a) rules of court relating to the service of documents have effect as if the partnership or unincorporated association were a body corporate, and

(b) adran 33 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1925(**1**) (gweithdrefn ar gyhuddiad o drosedd yn erbyn corfforaeth) ac Atodlen 3 i Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980 (**2**) (corfforaethau),

yn cael effaith mewn perthynas â'r bartneriaeth neu'r gymdeithas anghorfforedig fel y maent yn gymwys mewn perthynas â chorff corfforaethol.

(3) Mae dirwy a osodir ar bartneriaeth neu gymdeithas anghorfforedig yn dilyn collfarn am drosedd o dan y Rheoliadau hyn i'w thalu allan o gronfeydd y bartneriaeth neu'r gymdeithas anghorfforedig.

(4) Yn achos trosedd o dan reoliad 10 a gyflawnwyd gan bartneriaeth, os profir ei bod —

(a) y drosedd wedi ei chyflawni gyda chydsyniad neu ymoddefiad partner, neu

(b) yn briodoladwy i unrhyw esgeulustod ar ran partner,

mae'r partner hwnnw, yn ogystal â'r bartneriaeth, yn euog o'r drosedd ac yn agored i'w erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(5) Yn achos trosedd o dan reoliad 10 a gyflawnwyd gan gorff corfforaethol, os profir ei bod—

(a) wedi ei chyflawni gyda chydsyniad neu ymoddefiad swyddog, neu

(b) yn briodoladwy i unrhyw esgeulustod ar ran swyddog,

mae'r swyddog hwnnw, yn ogystal â'r corff corfforaethol, yn euog o'r drosedd ac yn agored i'w erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(6) Yn achos trosedd o dan reoliad 10 a gyflawnwyd gan gymdeithas anghorfforedig (ac eithrio partneriaeth), os profir ei bod —

(a) wedi ei chyflawni gyda chydsyniad neu ymoddefiad swyddog y gymdeithas neu aelod o'r chorff lywodraethu, neu

(**1**) 1925 p.86. Diddymwyd is-adrannau (1), (2) a (5) gan Ddeddf Llysoedd Ynadol 1952 (p.55), adran 132 ac Atodlen 6; diwygiwyd is-adran (3) gan Ddeddf Llysoedd 1971 (p.23), adran 56(1) ac Atodlen 8, Rhan 2, paragraff 19; diwygiwyd is-adran (4) gan Ddeddf llysoedd 2003 (p.39), adran 109(1) a (3), Atodlen 8, paragraff 71 ac Atodlen 10.

(**2**) 1980 p.43. Diwygiwyd paragraff 2(a) o Atodlen 3 gan Ddeddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996 (p.25), adran 47, Atodlen 1, paragraff 13, a diddymwyd ef gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 (p.44), adrannau 41 a 332, Atodlen 3, Rhan 2, paragraff 51(1) a (13)(a), ac Atodlen 37, Rhan 4 (cychwynnwyd yn rhannol gan O.S. 2012/1320 ac O.S. 2012/2574 a chydag effaith lawn o ddyddiad sydd i'w bennu); diddymwyd paragraff 5 gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1991 (p.53), adrannau 25(2) a 101(2) ac Atodlen 13; diwygiwyd paragraff 6 gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003, adran 41, Atodlen 3, Rhan 2, paragraff 51(1) ac (13)(b) (cychwynnwyd yn rhannol gan O.S. 2012/1320 ac O.S. 2012/2574, a chydag effaith lawn o ddyddiad sydd i'w bennu).

(b) section 33 of the Criminal Justice Act 1925(**1**) (procedure on charge of offence against corporation) and Schedule 3 to the Magistrates Courts' Act 1980(**2**) (corporations),

apply in relation to the partnership or association as they apply in relation to a body corporate.

(3) A fine imposed on a partnership or association on its conviction of an offence under these Regulations is to be paid out of the funds of the partnership or association.

(4) If an offence under regulation 10 committed by a partnership is proved—

(a) to have been committed with the consent or connivance of a partner, or

(b) to be attributable to the negligence of a partner,

that partner, as well as the partnership, is guilty of the offence and liable to be proceeded against and punished accordingly.

(5) If an offence under regulation 10 committed by a body corporate is proved—

(a) to have been committed with the consent of an officer, or

(b) to be attributable to the negligence of an officer,

that officer, as well as the body corporate, is guilty of the offence and liable to be proceeded against and punished accordingly.

(6) If an offence under regulation 10 committed by an unincorporated association (other than a partnership) is proved—

(a) to have been committed with the consent or connivance of an officer of the association or member of its governing body, or

(**1**) 1925 c. 86. Subsections (1), (2) and (5) were repealed by the Magistrates' Courts Act 1952 (c. 55), section 132 and Schedule 6; subsection (3) was amended by the Courts Act 1971 (c. 23), section 56(1) and Schedule 8, Part 2, paragraph 19; subsection (4) was amended by the Courts Act 2003 (c. 39), sections 109(1) and (3), Schedule 8, paragraph 71, and Schedule 10.

(**2**) 1980 c. 43. Paragraph 2(a) of Schedule 3 was amended by the Criminal Procedure and Investigations Act 1996 (c. 25), section 47, Schedule 1, paragraph 13, and was repealed by the Criminal Justice Act 2003 (c. 44), sections 41 and 332, Schedule 3, Part 2, paragraph 51(1) and (13)(a), and Schedule 37, Part 4 (partly commenced by S.I. 2012/1320 and S.I. 2012/2574 and with full effect from a date to be appointed): paragraph 5 was repealed by the Criminal Justice Act 1991 (c. 53) sections 25(2) and 101(2) and Schedule 13; paragraph 6 was repealed by the Criminal Justice Act 2003, section 41, Schedule 3, Part 2, paragraph 51(1) and (13)(b) (partly commenced by S.I. 2012/1320 and S.I. 2012/2574 and with full effect from a date to be appointed).

(b) yn briodoladwy i esgeulustod y swyddog neu'r aelod hwnnw,

mae'r swyddog neu'r aelod hwnnw, yn ogystal â'r gymdeithas, yn euog o'r drosedd ac yn agored i'w erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(7) Ym mharagraffau (4), (5) a (6), mae unrhyw gyfeiriad at swyddog, partner neu aelod, yn ôl fel y digwydd, yn cynnwys person sy'n honni gweithredu yn rhinwedd swydd o'r fath.

(8) Yn y rheoliad hwn—

(a) nid yw "partneriaeth" ("*partnership*") yn cynnwys partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig;

(b) nid yw "cymdeithas anghorfforedig" ("*unincorporated association*") yn cynnwys partneriaeth.

(b) to be attributable to the negligence of that officer or member,

that officer or member, as well as the association, is guilty of the offence and liable to be proceeded against and punished accordingly.

(7) In paragraphs (4), (5) and (6), any reference to an officer, partner or member, as the case may be, includes any person purporting to act in such capacity.

(8) In this regulation—

(a) "partnership" ("*partneriaeth*") does not include a limited liability partnership;

(b) "unincorporated association" ("*cymdeithas anghorfforedig*") does not include a partnership.

# RHAN 3

## TRAWSGYDYMFFURFIO

### Safonau ar gyfer cyflwr amaethyddol ac amgylcheddol da

**13.**—(1) Mae'r safonau ar gyfer cyflwr amaethyddol ac amgylcheddol da a bennir yn Atodlen 1 yn gymwys fel y gofynion lleiafswm at ddibenion Erthygl 94 o'r Rheoliad Llorweddol ac Atodiad II i'r Rheoliad hwnnw.

(2) Ond mae darpariaethau Atodlen 2 yn pennu'r amgylchiadau pan nad yw torri darpariaeth o Atodlen 1 yn gyfystyr â methiant i gydymffurfio.

### Awdurdodau rheoli cymwys

**14.**—(1) Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod rheoli cymwys yn yr ystyr a roddir i "competent control authority" at ddibenion Erthygl 67 o'r Rheoliad Gweithredu Llorweddol ac eithrio pan bennir yn wahanol yn y rheoliad hwn.

(2) At ddibenion Erthygl 67(1)(a) o'r Rheoliad Gweithredu Llorweddol, yr Ysgrifennydd Gwladol yw'r "corff rheoli arbenigol" yn yr ystyr a roddir i "specialised control body", sy'n ymgymryd â'r cyfrifoldeb am gyflawni'r rheolaethau mewn perthynas â'r gofynion rheoli statudol o dan rifau 5 ac 11 i 13 o Atodiad II i'r Rheoliad Llorweddol.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, mewn perthynas â'r safonau y maent yn gyfrifol amdanynt, wneud yn ofynnol bod awdurdod perthnasol yn cyflawni rheolaethau neu wiriadau at ddibenion Erthygl 65, Pennod I o Deitl III a Phennod II o Deitl IV o'r Rheoliad Gweithredu Llorweddol.

(4) Rhaid i awdurdod perthnasol, pan ofynnir iddo gan Weinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol, weithredu'r rheolaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff (3)—

# PART 3

## CROSS COMPLIANCE

### Standards for good agricultural and environmental condition

**13.**—(1) The standards for good agricultural and environmental condition set out in Schedule 1 apply as minimum requirements for the purposes of Article 94 of, and Annex II to, the Horizontal Regulation.

(2) But the provisions of Schedule 2 set out the circumstances in which a breach of a provision of Schedule 1 does not constitute a non-compliance.

### Competent control authorities

**14.**—(1) The Welsh Ministers are the competent control authority for the purposes of Article 67 of the Horizontal Implementing Regulation except as otherwise specified in this regulation.

(2) For the purposes of Article 67(1)(a) of the Horizontal Implementing Regulation, the Secretary of State is the specialised control body who bears the responsibility of carrying out the controls in respect of statutory management requirements under numbers 5 and 11 to 13 of Annex II to the Horizontal Regulation.

(3) The Welsh Ministers and the Secretary of State may, in respect of the standards for which they are responsible, require a relevant authority to carry out controls or checks for the purposes of Article 65, Chapter I of Title III and Chapter II of Title IV of the Horizontal Implementing Regulation.

(4) A relevant authority, if required by the Welsh Ministers or the Secretary of State to carry out the controls referred to in paragraph (3), must—

(a) anfon adroddiad rheoli dros dro, ynglŷn â'r rheolaethau a weithredwyd, ar Weinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol (yn ôl fel y digwydd);

(b) os tybia, wrth ymgymryd â'i weithgareddau eraill, fod methiant i gydymffurfio wedi digwydd, hysbysu'r person neu'r corff sy'n gyfrifol, o dan baragraff (1) neu (2) o'r rheoliad hwn, am weithredu'r rheolaethau mewn perthynas â'r methiant hwnnw i gydymffurfio.

(5) Yn y rheoliad hwn, ystyr "awdurdod perthnasol" ("*a relevant authority*") yw—

(a) Cyfoeth Naturiol Cymru;

(b) Awdurdod Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion; neu

(c) Y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol.

(6) Gweinidogion Cymru sy'n gorfodi'r Rhan hon o'r Rheoliadau, a chaiff Gweinidogion Cymru, mewn ysgrifen, awdurdodi personau i orfodi'r Rhan hon o'r Rheoliadau hyn.

# RHAN 4

## DARPARIAETHAU TERFYNOL

**Dirymiadau ac arbedion**

**15.**—(1) Mae'r offerynnau a restrir yn Atodlen 3 wedi eu dirymu yn ddarostyngedig i'r arbedion a ganlyn.

(2) Mae'r Rheoliadau Taliadau Sengl yn parhau'n gymwys mewn perthynas â chais sengl fel y'i diffinnir yn rheoliad 2(1) o'r Rheoliadau IACS.

(3) Mae rheoliadau 1 i 13 o'r Rheoliadau Datblygu Gwledig yn parhau'n gymwys mewn perthynas ag unrhyw gymorth ariannol fel y cyfeirir ato yn rheoliad 2(1) o'r Rheoliadau hynny

(4) Bydd unrhyw benodiad person awdurdodedig at ddibenion y Rheoliadau Datblygu Gwledig, y Rheoliadau IACS, neu'r Rheoliadau Trawsgydymffurfio, a oedd yn cael effaith yn union cyn 1 Ionawr 2015 yn parhau i gael effaith fel pe bai'n benodiad o'r person hwnnw gan Weinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol (yn ôl fel y digwydd) at ddibenion y Rheoliadau hyn.

(5) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "y Rheoliadau Datblygu Gwledig" ("*the Rural Development Regulations*") yw Rheoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2006(**1**);

(**1**) O.S. 2006/3343 (Cy. 304).

(a) send a provisional control report, in relation to the controls carried out, to the Welsh Ministers or Secretary of State (as the case may be);

(b) where, in the course of its other activities, it considers that there has been a non-compliance, notify the person or body responsible under paragraph (1) or (2) of this regulation for carrying out the controls in relation to that non-compliance.

(5) In this regulation, "a relevant authority" ("*awdurdod perthnasol*") means—

(a) Natural Resources Wales;

(b) Animal and Plant Health Authority; or

(c) Veterinary Medicines Directorate.

(6) The Welsh Ministers enforce this Part of the Regulations, and the Welsh Ministers may authorise in writing persons to enforce this Part of these Regulations.

# PART 4

## FINAL PROVISIONS

**Revocations and savings**

**15.**—(1) The instruments listed in Schedule 3 are revoked subject to the following savings.

(2) The Single Payment Regulations continue to apply in relation to a single application as defined in regulation 2(1) of the IACS Regulations.

(3) Regulations 1 to 13 of the Rural Development Regulations continue to apply in relation to any financial assistance as referred to in regulation 2(1) of those Regulations.

(4) Any appointment of an authorised person for the purposes of the Rural Development Regulations or the Cross Compliance Regulations in effect immediately before 1st January 2015 shall continue to have effect as if it were an appointment of that person as an authorised person by the Welsh Ministers or the Secretary of State (as the case may be) for the purposes of these Regulations.

(5) In this regulation—

"the Cross Compliance Regulations" ("*y Rheoliadau Trawsgydymffurfio*") means the Common Agricultural Policy Single Payment and Support Schemes (Cross Compliance) (Wales) Regulations 2004(**1**);

(**1**) S.I. 2004/3280 (W. 284).

ystyr “y Rheoliadau IACS” (“*the IACS Regulations*”) yw Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Integredig Gweinyddu a Rheoli) 2009(**1**);

ystyr “y Rheoliadau Taliadau Sengl” (“*the Single Payment Regulations*”) yw Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2010(**2**);

ystyr “y Rheoliadau Trawsgydymffurfio” (“*the Cross Compliance Regulations*”) yw Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Trawsgydymffurfio) (Cymru) 2004(**3**).

“the Rural Development Regulations” (“*y Rheoliadau Datblygu Gwledig*”) means the Rural Development Programmes (Wales) Regulations 2006(**1**);

“the IACS Regulations” (“*y Rheoliadau IACS*”) means the Common Agricultural Policy Single Payment and Support Schemes (Integrated Administration and Control System) Regulations 2009(**2**);

“the Single Payment Regulations” (“*y Rheoliadau Taliadau Sengl*”) means the Common Agricultural Policy Single Payment and Support Schemes (Wales) Regulations 2010(**3**).

*Rebecca Evans*

Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd, o dan awdurdod y Gweinidog Adnoddau Naturiol, un o Weinidogion Cymru
8 Rhagfyr 2014

Deputy Minister for Farming and Food, under the authority of the Minister for Natural Resources, one of the Welsh Ministers
8 December 2014

(**1**) O.S. 2009/3263.
(**2**) O.S. 2010/1892 (Cy. 185).
(**3**) O.S. 2004/3280 (Cy. 284).

(**1**) S.I. 2006/3343 (W. 304).
(**2**) S.I. 2009/3263.
(**3**) S.I. 2010/1892 (W. 185).

# ATODLEN 1

Rheoliad 13(1)

## Safonau ar gyfer Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da

**Sefydlu lleiniau clustogi ar hyd cyrsiau dŵr**

**1.**—(1) Rhaid peidio â thaenu gwrtaith nitrogen a weithgynhyrchwyd o fewn 2 fetr i ddŵr wyneb.

(2) Rhaid peidio â defnyddio Cynhyrchion Diogelu Planhigion o fewn 2 fetr i ddŵr wyneb ac eithrio i reoli rhywogaethau estron goresgynnol a hynny yn unig pan fo trwydded wedi ei rhoi yn unol â Rheoliadau Rheoli Plaleiddiaid 1986(**1**).

(3) Rhaid peidio â thaenu tail organig o fewn 10 metr i ddŵr wyneb oni ddefnyddir cyfarpar taenu manwl, ac yn yr achos hwnnw rhaid peidio â thaenu tail organig o fewn 6 metr i ddŵr wyneb.

(4) Caniateir taenu tail da byw (ac eithrio slyri a thail dofednod) yn y mannau a grybwyllir yn is-baragraffau (1), (2) a (3)—

(a) os taenir ef ar dir a reolir ar gyfer bridio adar hirgoes, neu fel glaswelltir lled-naturiol, cyfoethog ei rywogaethau ac os yw'r tir—

(i) yn dir yr hysbyswyd ei fod yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981; neu

(ii) yn ddarostyngedig i ymrwymiad amaeth-amgylcheddol a wnaed o dan y Rheoliad Datblygu Gwledig;

(b) os taenir ef rhwng 1 Mehefin a 31 Hydref, y ddau ddyddiad yn gynwysedig;

(c) os na thaenir ef yn uniongyrchol ar ddŵr wyneb; a

(d) os nad yw'r cyfanswm blynyddol yn fwy na 12.5 tunnell yr hectar.

(5) Rhaid peidio â thaenu tail organig o fewn 50 metr i dwll turio, ffynnon neu bydew.

(6) Rhaid peidio â lleoli safleoedd lle y darperir porthiant atodol i dda byw o fewn 10 metr i gwrs dŵr ar unrhyw dir.

(7) At ddibenion y paragraff hwn—

(**1**) O.S. 1986/1510; diwygiwyd gan O.S. 1997/188; gwnaed diwygiadau eraill, nad ydynt yn berthnasol

# SCHEDULE 1

Regulation 13(1)

## Standards for Good Agricultural and Environmental Condition

**Establishment of buffer strips along water courses**

**1.**—(1) Manufactured nitrogen fertiliser must not be spread within 2 metres of surface water.

(2) Plant Protection Products must not be applied within 2 metres of surface water other than to control invasive non-native species and only where a permit has been granted in accordance with the Control of Pesticides Regulations 1986(**1**).

(3) Organic manure must not be spread within 10 metres of surface water unless precision spreading equipment is used, in which case organic manure must not be spread within 6 metres of surface water.

(4) Livestock manure (other than slurry and poultry manure) may be spread in the areas covered by sub-paragraphs (1), (2) and (3) if—

(a) it is spread on land managed for breeding wader birds or as a species-rich semi-natural grassland and the land is—

(i) notified as a Site of Special Scientific Interest under the Wildlife and Countryside Act 1981; or

(ii) subject to an agri-environment commitment entered into under the Rural Development Regulation;

(b) it is spread between 1 June and 31 October, both dates inclusive;

(c) it is not spread directly on to surface water; and

(d) the total annual amount does not exceed 12.5 tonnes per hectare.

(5) Organic manure must not be spread within 50 metres of a borehole, spring or well.

(6) Sites where supplementary feeding for livestock is provided must not be located within 10 metres of a watercourse on any land.

(7) For the purposes of this paragraph—

(**1**) S.I. 1986/1510; amended by S.I. 1997/188; there are other amendments but none is relevant.

ystyr "cyfarpar taenu manwl" ("*precision spreading equipment*") yw system gwadnau llusg, bar diferion neu chwistrellydd;

ystyr "da byw" ("*livestock*") yw gwartheg, ieir, ceirw, hwyaid, geifr, ceffylau, moch, defaid, estrysod a thyrcwn;

ystyr "dofednod" ("*poultry*") yw ieir, hwyaid, estrysod a thyrcwn;

ystyr "gwrtaith ffosffad" ("*phosphate fertiliser*") yw unrhyw sylwedd sy'n cynnwys un neu fwy o gyfansoddion ffosffad a ddefnyddir ar dir i wella twf y llystyfiant ac mae'n cynnwys tail organig;

ystyr "gwrtaith nitrogen" ("*nitrogen fertiliser*") yw unrhyw sylwedd sy'n cynnwys un neu fwy o gyfansoddion nitrogen a ddefnyddir ar dir i wella twf y llystyfiant ac mae'n cynnwys tail organig;

ystyr "gwrtaith nitrogen a weithgynhyrchwyd" ("*manufactured nitrogen fertiliser*") yw unrhyw wrtaith nitrogen (ac eithrio tail organig) sydd wedi'i weithgynhyrchu drwy broses ddiwydiannol;

ystyr "slyri" ("*slurry*") yw carthion a gynhyrchir gan dda byw (ac eithrio dofednod) tra bônt mewn buarth neu adeilad (gan gynnwys unrhyw sarn, dŵr glaw neu olchiadau a gymysgwyd gyda'r carthion hynny) ac y mae eu tewdra yn caniatáu iddynt gael eu pwmpio neu eu gollwng drwy ddisgyrchiant (yn achos carthion sydd wedi'u gwahanu i'w ffracsiynau hylifol a'u rhai solet, y ffracsiwn hylifol yw'r slyri);

mae "taenu" (*"spreading")* yn cynnwys dodi ar wyneb y tir, chwistrellu i mewn i'r tir neu gymysgu â haenau arwyneb y tir ond nid yw'n cynnwys dyddodi carthion yn uniongyrchol ar y tir gan anifeiliaid;

ystyr "tail organig" (*"organic manure")* yw unrhyw wrtaith nitrogen neu wrtaith ffosffad sydd â'u ffynhonnell yn anifeiliaid, planhigion neu fodau dynol, ac mae'n cynnwys tail da byw.

"livestock" ("*da byw*") means cattle, chickens, deer, ducks, goats, horses, ostriches, pigs, sheep and turkeys;

"manufactured nitrogen fertiliser" ("*gwrtaith nitrogen a weithgynhyrchwyd*") means any nitrogen fertiliser (other than organic manure) manufactured by an industrial process;

"nitrogen fertiliser" ("*gwrtaith nitrogen*") means any substance containing one or more nitrogen compounds used on land to enhance growth of vegetation and includes organic manure;

"organic manure" ("*tail organig*") means any nitrogen fertiliser or phosphate fertiliser derived from animal, plant or human sources and includes livestock manure;

"precision spreading equipment" ("*cyfarpar taenu manwl*") means a trailing shoe, dribble bar or injector system;

"phosphate fertiliser" ("*gwrtaith ffosffad*") means any substance containing one or more phosphorous compounds used on land to enhance growth of vegetation and includes organic manure;

"poultry" ("*dofednod*") means chickens, ducks, ostriches and turkeys;

"slurry" ("*slyri*") means excreta produced by livestock (other than poultry) while in a yard or building (including any bedding, rainwater or washings mixed in with it) that has a consistency that allows it to be pumped, or discharged by gravity (in the case of excreta separated into its liquid and solid fraction, the slurry is the liquid fraction);

"spread" ("*taenu*") includes the application to the surface of the land, injection into the land or mixing with the surface layers of the land but does not include the direct deposit of excreta on to land by animals.

**Echdynnu dŵr ar gyfer dyfrhau**

**2.** Rhaid i'r modd yr echdynnir dŵr at ddibenion dyfrhau gydymffurfio ag adran 24 (cyfyngiadau ar echdynnu) Deddf Adnoddau Dŵr 1991(**1**).

**Abstraction of water for irrigation**

**2.** The abstraction of water for irrigation purposes must comply with section 24 (Restrictions on abstraction) of the Water Resources Act 1991(**1**).

**Diogelu dŵr daear**

**3.**—(1) Rhaid i fuddiolwr beidio ag achosi, na chaniatáu gan wybod hynny, unrhyw weithgaredd dŵr daear ac eithrio o dan, ac i'r graddau a awdurdodir

**Protection of groundwater**

**3.**—(1) A beneficiary must not cause, or knowingly permit, a groundwater activity except under and to the extent authorised by an environmental permit in

(**1**) 1991 p.57. Diwygiwyd adran 24(1) gan adran 120 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 and pharagraff 128 o Atodlen 22 i'r Ddeddf honno, a chan erthygl 4(1) o Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013 a pharagraff 270(a) o Atodlen 2(1) i'r Gorchymyn hwnnw.

(**1**) 1991 c. 57. Section 24(1) was amended by section 120 of, and paragraph 128 of Schedule 22 to, the Environment Act 1995 and article 4(1) of, and paragraph 270(a) of Schedule 2(1) to, the Natural Resources Body for Wales (Functions) Order 2013.

gan, drwydded amgylcheddol yn unol a rheoliad 12(1)(b) o Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010(**1**).

(2) Rhaid i fuddiolwr gydymffurfio â'r gofynion sy'n ymwneud â gweithgareddau dŵr daear yn unol â rheoliad 35(2)(p) o Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010 ac Atodlen 22 i'r Ddeddf honno(**2**).

(3) At ddibenion y paragraff hwn—

mae i "gweithgaredd dŵr daear" yr ystyr a roddir i "groundwater activity" yn Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010;

mae i "trwydded amgylcheddol" yr ystyr a roddir i "environmental permit" yn Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010.

**Isafswm gorchudd pridd**

**4.**—(1) Rhaid i fuddiolwr ddiogelu pob pridd drwy sicrhau bod pob tir wedi ei orchuddio gan gnydau, sofl, gweddillion neu lystyfiant arall pridd drwy gydol yr amser, ac eithrio pan fyddai sefydlu gorchudd o'r fath yn torri unrhyw un o ofynion paragraff 5.

(2) Pan fo tir wedi ei gynaeafu gan ddefnyddio cynaeafwr combein, cynaeafwr porthiant neu dorrwr gwair, rhaid i fuddiolwr sicrhau y bodlonir un o'r amodau canlynol drwy gydol y cyfnod sy'n dechrau gyda'r diwrnod cyntaf ar ôl cynaeafu ac yn diweddu ar y diwrnod cyntaf o fis Mawrth yn y flwyddyn ddilynol,—

(a) bod sofl y cnwd a gynaeafwyd yn aros yn y tir; neu

(b) y paratoir y tir fel gwely had ar gyfer cnwd neu gnwd gorchudd dros dro o fewn 14 diwrnod, ac

  (i) yr heuir y cnwd neu'r cnwd gorchudd dros dro o fewn y cyfnod o 10 diwrnod sy'n dechrau gyda'r diwrnod ar ôl gorffen paratoi'r gwely had, neu

  (ii) os byddai hau o fewn y cyfnod hwnnw o 10 diwrnod yn torri'r gofyniad ym mharagraff 6(1), yr heuir y cnwd neu'r cnwd gorchudd dros dro cyn gynted ag y bo'n ymarferol wedi i'r tir beidio â bod yn ddwrlawn.

accordance with regulation 12(1)(b) of the Environmental Permitting (England and Wales) Regulations 2010(**1**).

(2) A beneficiary must comply with the requirements relating to groundwater activities in accordance with regulation 35(2)(p) of, and Schedule 22 to, the Environmental Permitting Regulations (England and Wales) 2010.

(3) For the purposes of this paragraph—

"groundwater activity" ("*gweithgaredd dŵr daear*") has the same meaning as in the Environmental Permitting (England and Wales) Regulations 2010;

"environmental permit" ("*trwydded amgylcheddol*") has the same meaning as in the Environmental Permitting (England and Wales) Regulations 2010.

**Minimum soil cover**

**4.**—(1) A beneficiary must protect all soil by ensuring that all land is covered by crops, stubbles, residues or other vegetation at all times, except where establishing such cover would mean breaching any of the requirements of paragraph 5.

(2) Where land has been harvested using a combine harvester, forage harvester or mower, a beneficiary must ensure that, throughout the period beginning with the first day after harvest and ending on the first day of March in the following year, one of the following conditions is met on that land at all times—

(a) the stubble of the harvested crop remains in the land; or

(b) the land is prepared as a seedbed for a crop or temporary cover crop within 14 days, and

  (i) the crop, or temporary cover crop, is sown within a period of 10 days beginning with the day after final seedbed preparation, or

  (ii) if sowing within that 10-day period would mean breaching the requirement in paragraph 6(1), the crop, or temporary cover crop, is sown as soon as is practicable after the land ceases to be waterlogged.

(**1**) O.S. 2010/675; diwygiwyd gan O.S. 2012/630; diwygiwyd gan offerynnau eraill yn ogystal, ond nid yw'r diwygiadau hynny'n berthnasol.

(**1**) S.I. 2010/675; amended by S.I. 2012/630; there are other amending instruments but none is relevant.

**Isafswm rheolaeth tir sy'n adlewyrchu amodau penodol y safle er mwyn cyfyngu ar erydu**

**5.**—(1) Rhaid i fuddiolwr—

(a) beidio â chaniatáu, ar unrhyw dir, lefel o figno a rhigoli a fyddai'n achosi i bridd erydu i lawr llethr neu oddi ar y safle, i mewn i gwrs dŵr neu ffordd; a

(b) naill ai ddefnyddio aradr gynion neu osod ffensys gwaddodion i gyfyngu ar erydiad pridd, os nad yw'n bosibl hau cnwd gorchudd ar dir sydd wedi ei gynaeafu yn ddiweddar, neu lle mae'r porthiant neu gnwd gwreiddlysiau wedi ei bori ymaith.

(2) Yn y paragraff hwn—

ystyr "oddi ar y safle" ("*off-site*") yw unrhyw fan sydd y tu hwnt i derfyn cae mewn daliad, gan gynnwys cae arall sy'n rhan o'r un daliad;

**6.**—(1) Rhaid i fuddiolwr beidio â gwneud gwaith maes mecanyddol ar bridd dwrlawn os nad yw—

(a) y pridd hwnnw o fewn 20 metr i'r fynedfa at arwynebedd o bridd nad yw'n ddwrlawn;

(b) y pridd yn ffurfio rhan o drac sy'n arwain at arwynebedd o bridd nad yw'n ddwrlawn;

(c) y gwaith maes mecanyddol yn angenrheidiol—

(i) er mwyn gwella draeniad y pridd, neu

(ii) er mwyn corffori gypswm yn y pridd, yn dilyn mewnlifiad o ddŵr hallt, neu

(iii) am resymau lles anifeiliaid neu ddiogelwch dynol, neu

(iv) i gynaeafu cnwd o ffrwythau neu lysiau—

(aa) er mwyn bodloni ymrwymiadau contractiol, neu

(bb) os byddai ansawdd y cnwd yn dirywio pe na byddid yn ei gynaeafu;

(d) Gweinidogion Cymru, yn unol â'u rhwymedigaethau o dan is-baragraff (2), wedi cyhoeddi cyfarwyddiadau ysgrifenedig sy'n datgan, gan roi rhesymau—

(i) yn eu barn hwy, fod amodau tywydd eithriadol yn effeithio ar ardal yng Nghymru,

(ii) yn eu barn hwy, fod yr amodau tywydd hynny yn cyfiawnhau atal dros dro neu amrywio'r gofyniad yn y paragraff hwn, ar ôl ystyried effaith economaidd yr amodau tywydd yn ogystal ag effaith amgylcheddol unrhyw amrywiad neu ataliad o'r gofynion,

**Minimum land management reflecting site specific conditions to limit erosion**

**5.**—(1) A beneficiary must—

(a) not allow, on any land, poaching and rutting to occur at a level which causes soil erosion down slope or off-site to a watercourse or road; and

(b) either chisel-plough or install sediment fencing, to limit soil erosion if it is not possible to sow a cover crop on land which has been late harvested or where a forage or root crop has been grazed out.

(2) In this paragraph—

"off-site" ("*oddi ar y safle*") means any area beyond the boundary of a field on a holding, including another field that is part of the same holding;

**6.**—(1) A beneficiary must not carry out a mechanical field operation on waterlogged soil unless—

(a) the soil is within 20 metres of the access point to an area of soil which is not waterlogged;

(b) the soil forms part of a track to an area of soil which is not waterlogged;

(c) the mechanical field operation is necessary—

(i) to improve the drainage of the soil, or

(ii) to incorporate gypsum into the soil following an intrusion of saltwater, or

(iii) for reasons of animal welfare or human safety, or

(iv) in order to harvest a crop of fruit or vegetables—

(aa) in order to meet contractual obligations, or

(bb) where the quality of the crop would deteriorate if it was not harvested;

(d) the Welsh Ministers have, in accordance with their obligations under sub-paragraph (2), published written directions stating, with reasons—

(i) that in their opinion an area of Wales is affected by exceptional weather conditions,

(ii) that in their opinion those weather conditions justify the suspension or variation of the requirement in this paragraph, taking into consideration the economic impact of the weather conditions and the environmental effects of any variation or suspension of the requirements,

(iii) manylion yr ataliad neu'r amrywiad, a

(iv) am ba gyfnod y bydd yr ataliad neu'r amrywiad yn gymwys, ar yr amod na chaiff y cyfnod barhau am fwy na dau fis,

ac os felly, rhaid i unrhyw fuddiolwr yn yr ardal honno o Gymru gydymffurfio â'r gofyniad fel y'i hamrywiwyd yn y cyfarwyddiadau neu, yn achos ataliad o'r gofyniad, ni fydd angen i ffermwr gydymffurfio â'r gofyniad yn ystod y cyfnod a bennir.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi cyfarwyddiadau o'r fath, ym mha bynnag ffordd yr ystyriant yn briodol er mwyn eu dwyn i sylw'r bobl y mae'n debygol yr effeithir arnynt, bob tro y tybiant fod amodau tywydd o'r fath yn cyfiawnhau hynny.

(3) Yn y paragraff hwn—

mae "gwaith maes mecanyddol" ("*mechanical field operation*") yn cynnwys unrhyw waith cynaeafu, trin tir neu daenu (gan gynnwys taenu tail neu slyri) a phob gweithgarwch gyda cherbydau ar y tir dan sylw.

**Cynnal deunydd organig yn y pridd**

**7.**—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), rhaid i fuddiolwr, ar unrhyw arwynebedd amaethyddol, beidio â llosgi unrhyw weddillion cnwd o fath a bennir yn Atodlen 1 i Reoliadau Gweddillion Cnydau (Llosgi) 1993(**1**) oni losgir y gweddillion hynny at ddibenion—

(a) rheoli clefyd neu blâu planhigion pan fo hysbysiad wedi ei gyflwyno o dan erthygl 32 o Orchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006(**2**);

(b) addysg neu ymchwil; neu

(c) gwaredu gweddillion tas wellt neu fêls sydd wedi chwalu.

(2) Rhaid i fuddiolwr gael caniatâd Gweinidogion Cymru cyn dechrau llosgi at ddibenion is-baragraff (1)(b) neu (c).

**8.** Rhaid i fuddiolwr, ar unrhyw arwynebedd amaethyddol, beidio â llosgi—

(a) unrhyw weddillion cnwd o fath a bennir yn Atodlen 1 i Reoliadau Gweddillion Cnydau (Llosgi) 1993, y mae esemptiad a bennir ym mharagraff 7(1)(a) neu (b) yn gymwys iddynt;

(b) unrhyw weddillion had llin;

(**1**) O.S. 1993/1366.
(**2**) O.S. 2006/1643 (Cy. 158) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan O.S. 2014/2368 (Cy. 231).

(iii) the details of the suspension or variation, and

(iv) the period during which the suspension or variation will apply, provided that the period does not last more than two months,

in which case any beneficiary in the area of Wales concerned must comply with the requirement as varied in the directions, or in the case of a suspension of the requirement, need not comply with the requirement, during the period stated.

(2) The Welsh Ministers must publish such directions, in such a way as they consider appropriate to bring to the notice of those likely to be affected by them, whenever they consider it justified in consequence of such weather conditions to do so.

(3) In this paragraph—

"mechanical field operation" ("*gwaith maes mecanyddol*") includes any harvesting, cultivation or spreading operation (including the spreading of manure or slurry) and all vehicle activity over the land in question.

**Maintenance of soil organic matter**

**7.**—(1) Subject to sub-paragraph (2), a beneficiary must not, on any agricultural area, burn any crop residue of a kind specified in Schedule 1 to the Crop Residues (Burning) Regulations 1993(**1**) unless the burning is for the purposes of—

(a) disease control or the elimination of plant pests where a notice has been served under article 32 of the Plant Health (Wales) Order 2006(**2**);

(b) education or research; or

(c) the disposal of straw stack remains or broken bales.

(2) A beneficiary must obtain the consent of the Welsh Ministers prior to commencing burning for the purposes of sub-paragraph (1)(b) or (c).

**8.** A beneficiary must not, on any agricultural area, burn—

(a) any crop residue of a kind specified in Schedule 1 to the Crop Residues (Burning) Regulations 1993 to which an exemption specified in paragraph 7(1)(a) or (b) applies;

(b) any linseed residues;

(**1**) S.I. 1993/1366.
(**2**) S.I. 2006/1643 (W. 158) as last amended by S.I. 2014/2368 (W. 231).

ac eithrio'n unol â'r cyfyngiadau a'r gofynion a bennir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hynny.

### Llosgi grug a glaswellt

**9.**—(1) Rhaid i fuddiolwr beidio â chychwyn llosgi grug, glaswellt garw, rhedyn neu goed llus (*Vaccinium*) ar unrhyw dir rhwng machlud a chodiad haul.

(2) Rhaid i ffermwr beidio â llosgi grug, glaswellt garw, rhedyn neu goed llus—

(a) oni fydd cynllun llosgi wedi ei baratoi ac y bwriedir llosgi yn unol â darpariaethau'r cynllun hwnnw;

(b) onid oes, yn y man lle mae'r llosgi'n digwydd, nifer digonol o bersonau a chyfarpar i reoli a rheoleiddio'r llosgi yn ystod y cyfnod gweithredu cyfan;

(c) oni fydd y buddiolwr, cyn cychwyn llosgi ac yn ystod y cyfnod gweithredu cyfan, yn cymryd pob rhagofal rhesymol i osgoi niwed neu ddifrod i dir cyfagos neu, i unrhyw berson neu wrthrych sydd ar y tir hwnnw;

(d) oni fydd y buddiolwr, o fewn dim llai na 24 awr a dim mwy na 72 awr cyn dechrau llosgi ar unrhyw dir, wedi rhoi hysbysiad ysgrifenedig o'r dyddiad neu'r dyddiadau, yr amser a'r lleoliad, ac o arwynebedd y man y bwriedir ei losgi—

(i) i unrhyw berson sydd â buddiant yn y tir hwnnw fel perchennog neu fel meddiannydd, a

(ii) ac eithrio yn achos unrhyw losgi a wneir ar dir rheilffordd, i unrhyw berson arall y gwyddys, neu y gellid gyda diwydrwydd rhesymol ddarganfod, ei fod yn gyfrifol am unrhyw dir cyfagos i'r tir y bwriedir llosgi arno.

(3) Rhaid i fuddiolwr beidio â llosgi grug, glaswellt garw, rhedyn neu goed llus—

(a) ar dir sydd o fewn ardal ucheldirol, yn ystod y cyfnod mewn unrhyw flwyddyn rhwng 16 Mawrth a 31 Hydref, y ddau ddyddiad yn gynwysedig; neu

(b) ar unrhyw dir arall, yn ystod y cyfnod mewn unrhyw flwyddyn rhwng 1 Ebrill a 30 Medi, y ddau ddyddiad yn gynwysedig,

ac eithrio o dan ac yn unol â thrwydded a roddwyd yn unol â rheoliad 7 o Reoliadau Llosgi Grug a Glaswellt etc. (Cymru) 2008(**1**).

(**1**) O.S. 2008/1081 (Cy. 115).

other than in accordance with the restrictions and requirements set out in Schedule 2 to those Regulations.

### Heather and grass burning

**9.**—(1) A beneficiary must not commence burning heather, rough grass, bracken, gorse or vaccinium on any land between sunset and sunrise.

(2) A beneficiary must not burn heather, rough grass, bracken, gorse or vaccinium unless—

(a) a burning plan has been prepared and the proposed burning is in accordance with the provisions of that plan;

(b) there are, where the burning is taking place, sufficient persons and equipment to control and regulate the burning during the entire period of the operation;

(c) the beneficiary takes, before commencing burning and during the entire period of the operation, all reasonable precautions to prevent injury or damage to any adjacent land, or to any person or thing on that land;

(d) the beneficiary has, not less than 24 hours and not more than 72 hours before commencing burning on any land, given notice in writing of the date or dates, time and place at which, and the extent of the area on which it is the intention to burn—

(i) to any person who has an interest in that land either as an owner or an occupier, and

(ii) except in the case of any burning carried out on railway land, to any other person whom is known, or could with reasonable diligence have been discovered, to be in charge of any land adjacent to that on which the burning is to take place.

(3) A beneficiary must not burn heather, rough grass, bracken, gorse or vaccinium—

(a) on land which is within an upland area, during the period within any year from 1 April to 30 September, both dates inclusive; or

(b) on all other land, during the period within any year from 16 March to 31 October, both dates inclusive,

except under and in accordance with a licence granted pursuant to regulation 7 of the Heather and Grass etc. Burning (Wales) Regulations 2008(**1**).

(**1**) S.I. 2008/1081 (W. 115).

**Asesiad effaith amgylcheddol**

**10.**—(1) Rhaid i fuddiolwr beidio â chychwyn na chyflawni prosiect tir heb ei drin, na phrosiect ailstrwythuro—

(a) yn groes i reoliad 4 o'r Rheoliadau AEA (Amaethyddiaeth), neu

(b) yn groes i reoliad 8 o'r Rheoliadau hynny.

(2) Rhaid i fuddiolwr beidio â gweithredu'n groes i unrhyw hysbysiad atal sydd wedi ei gyflwyno iddo o dan reoliad 24 o'r Rheoliadau AEA (Amaethyddiaeth).

(3) Rhaid i fuddiolwr, heb esgus rhesymol, beidio â thorri unrhyw ofyniad mewn hysbysiad adfer a gyflwynir iddo o dan reoliad 26 o'r Rheoliadau AEA (Amaethyddiaeth).

(4) Yn y paragraff hwn, mae i "prosiect tir heb ei drin" ("*uncultivated land project*") yr ystyr a roddir i'r term gan reoliad 2(1) o'r Rheoliadau AEA (Amaethyddiaeth).

(5) Yn paragraff hwn, ystyr "y Rheoliadau AEA (Amaethyddiaeth)" ("*the EIA (Agriculture) Regulations*") yw Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2007(**1**)

**11.**—(1) Rhaid i fuddiolwr, ar unrhyw dir, beidio â chyflawni gwaith neu weithrediadau sy'n ymwneud â phrosiect perthnasol—

(a) oni roddwyd caniatâd ar gyfer y prosiect hwnnw gan y corff coedwigaeth priodol neu gan yr awdurdod priodol; a

(b) oni chyflawnir y prosiect yn unol â'r caniatâd (gan gynnwys unrhyw amodau y mae'r caniatâd yn ddarostyngedig iddynt).

(2) Rhaid i fuddiolwr beidio â chyflawni gwaith mewn perthynas â phrosiect perthnasol yn groes i ofyniad i atal y gwaith hwnnw mewn hysbysiad gorfodi a gyflwynwyd yn unol â rheoliad 20 o'r Rheoliadau AEA (Coedwigaeth).

(3) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), rhaid i fuddiolwr, y cyflwynwyd hysbysiad gorfodi iddo yn unol â rheoliad 20 o'r Rheoliadau AEA (Coedwigaeth), gyflawni unrhyw fesur sy'n ofynnol gan yr hysbysiad gorfodi, o fewn y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad gorfodi.

(4) Yn y paragraff hwn—

(a) mae i'r ymadroddion "yr awdurdod priodol" ac "y corff coedwigaeth priodol" yr ystyron a roddir, yn eu trefn, i "the appropriate authority" a "the appropriate forestry body" gan reoliad 2(1) o'r Rheoliadau AEA

(**1**) O.S. 2007/2933 (Cy. 253) a ddiwygiwyd gan O.S. 2013/755 (Cy. 90).

**Environmental impact assessment**

**10.**—(1) A beneficiary must not begin or carry out an uncultivated land project or a restructuring project—

(a) in breach of regulation 4 of, or

(b) in breach of regulation 8 of,

the EIA (Agriculture) Regulations.

(2) A beneficiary must not breach a stop notice that has been served on him under regulation 24 of the EIA (Agriculture) Regulations.

(3) A beneficiary must not, without reasonable excuse, fail to comply with any requirement of a remediation notice served on him under regulation 26 of the EIA (Agriculture) Regulations.

(4) In this paragraph, "uncultivated land project" ("*prosiect tir heb ei drin*") has the meaning given to it by regulation 2(1) of the EIA (Agriculture) Regulations.

(5) In this paragraph, "the EIA (Agriculture) Regulations" ("*y Rheoliadau AEA (Amaethyddiaeth)*") means the Environmental Impact Assessment (Agriculture) (Wales) Regulations 2007(**1**)

**11.**—(1) A beneficiary must not carry out, on any land, work or operations relating to a relevant project unless—

(a) consent has been granted for that project by the appropriate forestry body or by the appropriate authority; and

(b) the project is carried out in accordance with the consent (including any conditions to which the consent is subject).

(2) A beneficiary must not carry out work in relation to a relevant project in contravention of a requirement to discontinue that work in an enforcement notice served in accordance with regulation 20 of the EIA (Forestry) Regulations.

(3) Subject to sub-paragraph (2), a beneficiary on whom an enforcement notice has been served in accordance with regulation 20 of the EIA (Forestry) Regulations must not fail, within the period specified in the enforcement notice, to carry out any measure required by the enforcement notice.

(4) In this paragraph—

(a) "the appropriate authority" ("*yr awdurdod priodol*") and "the appropriate forestry body" ("*y corff coedwigaeth priodol*") have the meanings given to them by regulation 2(1) of the EIA (Forestry) Regulations, and "relevant project" ("*prosiect perthnasol*") has the

(**1**) S.I. 2007/2933 (W. 253) amended by S.I. 2013/755 (W. 90).

(Coedwigaeth), ac mae i "prosiect perthnasol" yr ystyr a roddir i "relevant project" gan reoliad 3(1) o'r Rheoliadau hynny; a

(b) ystyr "y Rheoliadau AEA (Coedwigaeth)" ("*the EIA (Forestry) Regulations*") yw Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Coedwigaeth) (Cymru a Lloegr) 1999(**1**).

**Cadw nodweddion tirwedd – henebion cofrestredig**

**12.**—(1) Yn ddarostyngedig is-baragraff (3), ni chaiff buddiolwr, heb ganiatâd o dan adran 2(3) o Deddf Henebion a Mannau Archeolegol 1979(**2**), gyflawni unrhyw waith fel a ganlyn—

(a) unrhyw waith sy'n peri dymchwel neu ddinistrio neu unrhyw ddifrod i heneb gofrestredig;

(b) unrhyw waith at y diben o symud neu atgyweirio heneb gofrestredig neu unrhyw ran ohoni;

(c) unrhyw waith at y diben o wneud unrhyw newid neu ychwanegiadau i heneb gofrestredig neu unrhyw ran ohoni;

(d) unrhyw weithrediadau gorlifo neu dipio ar dir sydd â heneb gofrestredig ynddo, arno neu oddi tano.

(2) Yn ddarostyngedig is-baragraff (3), pan fo buddiolwr yn cyflawni unrhyw waith y mae caniatâd heneb gofrestredig yn ymwneud ag ef, rhaid i'r buddiolwr gydymffurfio â phob amod sydd ynghlwm wrth y caniatâd hwnnw.

(3) Nid yw is-baragraffau (1) a (2) yn gymwys os gall buddiolwr ddangos—

(a) mewn perthynas â gwaith a waherddir o dan baragraff (1)(a), fod y buddiolwr wedi cymryd pob rhagofal rhesymol ac wedi arfer pob diwydrwydd dyladwy i osgoi neu rwystro difrodi'r heneb;

(b) mewn perthynas â gwaith a waherddir o dan baragraff (1)(a) neu (c), nad oedd y buddiolwr yn gwybod, ac nad oedd ganddo reswm i gredu, fod yr heneb o fewn y man yr effeithid arno gan y gwaith neu, yn ôl fel y digwydd, ei bod yn heneb gofrestredig; ac

(c) mewn perthynas ag unrhyw waith o dan is-baragraff (1) neu (2), fod angen gwneud y gwaith ar frys er lles diogelwch neu iechyd a bod hysbysiad o'r angen i wneud y gwaith

(**1**) O.S. 1999/2228. Diwygiwyd rheoliad 2(1) gan erthygl 4(2) o Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013, (O.S. 2013/755 (Cy.90)) a pharagraff 99(2) o Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwnnw. Gwnaed diwygiadau eraill, ond nid oes yr un ohonynt yn berthnasol.

(**2**) 1979 p.46.

meaning given to it by regulation 3(1) of those Regulations; and

(b) "the EIA (Forestry) Regulations" ("*y Rheoliadau AEA (Coedwigaeth)*") means the Environmental Impact Assessment (Forestry) (England and Wales) Regulations 1999(**1**).

**Retention of landscape features - scheduled monuments**

**12.**—(1) Subject to sub-paragraph (3), a beneficiary must not, without consent under section 2(3) of the Ancient Monuments and Archaeological Areas Act 1979(**2**), execute any of the following works—

(a) any works resulting in the demolition or destruction of, or any damage to, a scheduled monument;

(b) any works for the purpose of removing or repairing a scheduled monument or any part of it;

(c) any works for the purpose of making any alteration or additions to a scheduled monument or any part of it;

(d) any flooding or tipping operations on land in, on or under which there is a scheduled monument.

(2) Subject to sub-paragraph (3), if a beneficiary executes any works to which a scheduled monument consent relates, the beneficiary must comply with all conditions attached to that consent.

(3) Sub-paragraphs (1) and (2) do not apply where a beneficiary can show that—

(a) in relation to works prohibited under sub-paragraph (1)(a), that beneficiary took all reasonable precautions and exercised all due diligence to avoid or prevent damage to the monument;

(b) in relation to works prohibited under sub-paragraph (1)(a) or (c), that beneficiary did not know and had no reason to believe that the monument was within the area affected by the works or, as the case may be, that it was a scheduled monument; and

(c) in relation to any works under sub-paragraph (1) or (2), the works were urgently necessary in the interests of safety or health and that notice in writing of the need for the works

(**1**) S.I. 1999/2228. Regulation 2(1) was amended by article 4(2) of, and paragraph 99(2) of Schedule 4 to, the Natural Resources Body for Wales (Functions) Order 2013 (S.I. 2013/755 (W. 90)). There are other amendments but none which are relevant.

(**2**) 1979 c. 46.

wedi ei ro i Weinidogion Cymru cyn gynted ag yr oedd yn rhesymol ymarferol.

(4) Yn y paragraff hwn, mae i “heneb gofrestredig” (“*scheduled monument*”) yr ystyr a roddir i “scheduled monument” yn adran 1(11) o Ddeddf Henebion a Mannau Archeolegol 1979, a rhaid dehongli “caniatâd heneb gofrestredig” (“*scheduled monument consent*”) yn unol ag adrannau 2(3) a 3(5) o’r Ddeddf honno.

**Cadw nodweddion tirwedd eraill**

**13.**—(1) Ac eithrio pan fo is-baragraff (2) neu (3) yn gymwys, ni chaiff ffermwr symud ymaith, dinistrio na difrodi waliau cerrig, cloddiau cerrig, perthi, cloddiau , ffensys llechi, pyllau dŵr na ffosydd heb ganiatâd ymlaen llaw gan—

(a) Gweinidogion Cymru,

(b) unrhyw awdurdod arall, gan neu o dan unrhyw ddeddfiad, fel yr hysbysir i’r buddiolwr gan Weinidogion Cymru pan fo’r buddiolwr yn gwneud cais iddynt am ganiatâd.

(2) Caiff buddiolwr symud ymaith nodwedd gerrig, neu dynnu cerrig allan o nodwedd gerrig—

(a) er mwyn lledu bwlch presennol yn y nodwedd gerrig i ddim mwy na 10 metr i ddarparu mynediad i’r tir ar gyfer peiriannau neu dda byw, ond rhaid i bennau’r nodwedd, a grëir gan y weithred o’i lledu, gael eu gorffen gyda wyneb fertigol; neu

(b) os rhoddodd Gweinidogion Cymru ganiatâd ysgrifenedig i’r buddiolwr wneud hynny oherwydd eu bod o’r farn bod symud yn angenrheidiol yn yr amgylchiad penodol dan sylw.

(3) Caiff buddiolwr ledu bwlch presennol mewn perth, clawdd neu ffos i ddim mwy na 10 metr i ddarparu mynediad i’r tir ar gyfer peiriannau neu dda byw, ond rhaid i ben y berth, clawdd neu ffos, a grëir gan y weithred o ledu, gael ei orffen gyda wyneb fertigol.

(4) Rhaid i fuddiolwr beidio â thrin tir o fewn 1 fetr i berth, clawdd neu gwrs dŵr cyfagos i arwynebedd amaethyddol.

(5) Rhaid i fuddiolwr beidio â symud ymaith unrhyw berth, yn groes i reoliad 5(1) neu (9) o Reoliadau Perthi 1997(**1**).

(**1**) O.S. 1997/1160. Gwnaed diwygiadau, nad oes yr un ohonynt yn berthnasol.

was given to the Welsh Ministers as soon as reasonably practicable.

(4) In this paragraph, “scheduled monument” (“*heneb gofrestredig*”) has the meaning given to it in section 1(11) of the Ancient Monuments and Archaeological Areas Act 1979 and “scheduled monument consent” (“*caniatâd heneb gofrestredig*”) is to be construed in accordance with sections 2(3) and 3(5) of that Act.

**Retention of other landscape features**

**13.**—(1) Except where sub-paragraph (2) or (3) apply, a beneficiary must not remove, destroy or damage stone walls, stone faced banks, hedges, earth banks, slate fences, ponds or ditches without the prior consent of—

(a) the Welsh Ministers,

(b) another authority, by or under any enactment, as shall be notified to the beneficiary by the Welsh Ministers when the beneficiary applies to them for consent.

(2) A beneficiary may remove, or remove stone from, a stone feature—

(a) to widen an existing gap in the stone feature to no more than 10 metres in order to provide access to the land for machinery or livestock, but the ends of the feature created by the widening operation must be finished with a vertical face; or

(b) if the Welsh Ministers have given the beneficiary written permission to do so because they consider that the removal is necessary in the circumstance of the particular case.

(3) A beneficiary may widen an existing gap in a hedge, earth bank or ditch to no more than 10 metres in order to provide access to the land for machinery or livestock but the end of the hedge, earth bank or ditch created by the widening operation must be finished with a vertical face.

(4) A beneficiary must not cultivate land within 1 metre of a hedge, earth bank or watercourse adjacent to an agricultural area.

(5) A beneficiary must not remove a hedgerow in breach of regulation 5(1) or (9) of the Hedgerows Regulations 1997(**1**).

(**1**) S.I. 1997/1160. There are amendments, none of which are relevant.

(6) Rhaid i fuddiolwr beidio â thorri gorchymyn cadw coed a wnaed o dan adran 198(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**1**), drwy—

(a) dorri coeden i lawr, ei dadwreiddio neu ei dinistrio'n fwriadol; neu

(b) difrodi yn fwriadol, brigdorri neu dorri canghennau coeden mewn modd sy'n debygol o'i dinistrio.

(7) Yn y paragraff hwn—

ystyr "cais datblygu gwledig" ("*rural development application*") yw cais i Weinidogion Cymru i ymuno mewn ymrwymiad datblygu gwledig;

ystyr "ceisydd datblygu gwledig" ("*rural development applicant*") yw unrhyw berson sy'n gwneud cais datblygu gwledig:

ystyr "clawdd cerrig" ("*stone faced bank*") yw clawdd bridd gyda gwaith cerrig ar un wyneb.

mae "ffos" ("*ditch*") yn cynnwys ffos sych;

mae "nodwedd gerrig" ("*stone feature*") yn cynnwys wal gerrig, clawdd cerrig a ffens lechi;

ystyr "perth" ("*hedgerow*") yw unrhyw berth sydd â'i lled mwyaf yn 10 metr neu'n llai;

ystyr "pwll dŵr" ("*pond*") yw corff o ddŵr sy'n digwydd yn naturiol, neu a grëwyd o dan ymrwymiad datblygu gwledig, gydag arwynebedd o hyd at 0.1 hectar;

ystyr "taliad datblygu gwledig" ("*rural development payment*") yw unrhyw daliad a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Deitl III o'r Rheoliad Datblygu Gwledig;

ystyr "wal gerrig" ("*stone wall*") yw wal gerrig draddodiadol, ac mae'r term yn cynnwys "wal Penclawdd" a "perth Sir Benfro";

ystyr "wal Penclawdd" neu "perth Sir Benfro" ("*Penclawdd wall*" neu "*Pembrokeshire hedge*") yw clawdd pridd gyda gwaith cerrig ar ei ddau wyneb;

ystyr "ymrwymiad datblygu gwledig" ("*rural development commitment*") yw ymrwymiad a roddir i Weinidogion Cymru gan geisydd datblygu gwledig, i gydymffurfio ag unrhyw ofyniad sy'n amod cael taliad datblygu gwledig;

(6) A beneficiary must not, in breach of a tree preservation order made under section 198(1) of the Town and Country Planning Act 1990(**1**)—

(a) cut down, uproot or wilfully destroy a tree; or

(b) wilfully damage, top or lop a tree in such a manner as to be likely to destroy it.

(7) In this paragraph—

"ditch" ("*ffos*") includes a dry ditch;

"hedge" ("*perth*") means any hedgerow with a maximum width of 10 metres or less;

"pond" ("*pwll dŵr*") means a body of water occurring naturally, or created under a rural development commitment, up to 0.1 hectare surface area;

"rural development application" ("*cais datblygu gwledig*") means an application to the Welsh Ministers to enter into a rural development commitment;

"rural development applicant" ("*ceisydd datblygu gwledig*") means any person who makes a rural development application:

"rural development commitment" ("*ymrwymiad datblygu gwledig*") means an undertaking by a rural development applicant to the Welsh Ministers to comply with any requirement which is a condition of receiving a rural development payment;

"rural development payment" ("*taliad datblygu gwledig*") means any payment made by the Welsh Ministers under Title III of the Rural Development Regulation;

"stone feature" ("*nodwedd gerrig*") includes a stone wall, a stone faced bank and a slate fence;

"stone wall" ("*wal gerrig*") means a traditional stone wall and includes Penclawdd walls and Pembrokeshire hedges;

"Penclawdd wall" ("*wal Penclawdd*") and "Pembrokeshire hedge" ("*perth Sir Benfro*") means an earth bank with two constructed stone faces;

"stone faced bank" ("*clawdd cerrig*") means an earth bank with one constructed stone face.

**Cadw nodweddion tirwedd – gwahardd torri perthi a choed**

**14.**—(1) Ac eithrio pan fo is-baragraffau (2), (3), (4) neu (5) yn gymwys, rhaid i fuddiolwr beidio â thorri neu docio unrhyw berth neu goeden ar ddaliad yn

**Retention of landscape features - ban on cutting hedges and trees**

**14.**—(1) Except where sub-paragraphs (2), (3), (4) or (5) apply, a beneficiary must not cut or trim any hedgerow or tree on a holding during the period

(**1**) 1990 p.8.

(**1**) 1990 c. 8.

ystod y cyfnod sy'n dechrau gydag 1 Mawrth ac diweddu ar 31 Awst.

(2) Caiff ffermwr dorri neu docio perth neu goeden ar unrhyw adeg—

(a) os yw'n angenrheidiol torri neu docio'r berth neu'r goeden oherwydd—

(i) ei bod yn bargodi dros briffordd neu ffordd neu lwybr troed arall sy'n agored i'r cyhoedd, gan beryglu neu rwystro mynediad cerbydau neu gerddwyr;

(ii) ei bod yn rhwystro, neu'n ymyrryd â, gwelededd gyrwyr cerbydau, neu'r golau o lamp gyhoeddus;

(iii) ei bod yn bargodi dros briffordd gan beryglu neu rwystro mynediad marchogion ceffylau; neu

(b) os yw'n angenrheidiol ei thorri neu'u thocio—

(i) oherwydd ei bod yn farw, yn afiach, wedi ei difrodi, neu wedi gwreiddio'n anniogel, ac

(ii) oherwydd ei chyflwr, gan fod y goeden neu'r berth, neu ran ohoni, yn debygol o achosi perygl drwy gwympo ar y briffordd neu'r llwybr troed; neu

(c) os torrir neu docio er mwyn cynnal ffos; neu

(d) os yw'r goeden mewn perllan,

ac nad yw'r buddiolwr yn tarfu ar unrhyw adar sy'n nythu yn y berth neu'r goeden.

(3) Caiff buddiolwr blygu perthi a phrysgoedio perthi a choed—

(a) yn ystod y cyfnod sy'n dechrau ar 1 Mawrth ac yn diweddu ar 31 Mawrth os nad yw'r buddiolwr yn tarfu ar unrhyw adar sy'n nythu yn y berth neu'r goeden; neu

(b) yn ystod y cyfnod sy'n dechrau ar 1 Mawrth ac yn diweddu ar 30 Ebrill os yw Gweinidogion Cymru wedi rhoi caniatâd ysgrifenedig i'r buddiolwr wneud hynny, gan fod Gweinidogion Cymru o'r farn bod hynny'n angenrheidiol at ddibenion cystadleuaeth neu ddigwyddiad hyfforddi.

(4) Caiff buddiolwr docio perth â llaw yn ystod cyfnod o chwe mis sy'n dechrau gyda'r diwrnod ar ôl y diwrnod y plygwyd y berth.

(5) Caiff buddiolwr dorri neu docio perth neu goeden ar dir âr yn ystod Awst os yw'r buddiolwr yn plannu cnydau âr gaeaf ar y tir hwnnw, yn rhan o drefniadau ffermio arferol y buddiolwr, ac os nad yw'r buddiolwr yn tarfu ar unrhyw adar sy'n nythu yn y berth.

beginning on 1 March and ending on 31 August, both dates inclusive.

(2) A beneficiary may cut or trim a hedgerow or tree at any time if—

(a) it is necessary to cut or trim it because it—

(i) overhangs a highway or any other road or footpath to which the public has access so as to endanger or obstruct the passage of vehicles or pedestrians;

(ii) obstructs or interferes with the view of drivers of vehicles or the light from a public lamp;

(iii) overhangs a highway so as to endanger or obstruct the passage of horse-riders; or

(b) it is necessary to cut or trim it because—

(i) it is dead, diseased, damaged or insecurely rooted, and

(ii) because of its condition it, or part of it, is likely to cause danger by falling on the highway road or footpath; or

(c) the cutting or trimming is carried out in order to maintain a ditch; or

(d) the tree is in an orchard,

and the beneficiary does not disturb any birds nesting in the hedgerow or tree.

(3) A beneficiary may carry out hedgerow-laying and hedgerow and tree coppicing—

(a) during the period beginning on 1 March and ending on 31 March if the beneficiary does not disturb any birds nesting in the hedgerow or tree; or

(b) during the period beginning on 1 March and ending on 30 April if the Welsh Ministers have given the beneficiary written permission to do so because the Welsh Ministers consider it necessary for purposes of a competition or training event.

(4) A beneficiary may trim a hedgerow by hand during a period of six months beginning with the first day after the hedge was laid.

(5) A beneficiary may cut or trim a hedgerow or tree on arable land during August if the beneficiary is planting winter arable crops on that land as part of the beneficiary's normal farming practice and the beneficiary does not disturb any birds nesting in the hedgerow or tree.

**Cadw nodweddion tirwedd –cwympo coed**

**15.**—(1) Rhaid i fuddiolwr beidio â chwympo coeden heb awdurdod trwydded gwympo coed, mewn amgylchiadau pan fo trwydded gwympo yn ofynnol o dan adran 9(1) o Ddeddf Coedwigaeth 1967(**1**).

(2) Ni chaiff buddiolwr, heb esgus rhesymol, beidio â chymryd pa bynnag gamau sy'n ofynnol gan hysbysiad a roddir iddo o dan adran 24 o Ddeddf Coedwigaeth 1967 (hysbysiad i fynnu cydymffurfiaeth ag amodau neu gyfarwyddiadau)(**2**).

# ATODLEN 2

Rheoliad 13(2)

## Amgylchiadau pan nad yw toriad o Atodlen 1 yn fethiant i gydymffurfio

**1.** Unrhyw weithred a gyflawnir o dan ymrwymiad o dan—

(a) cytundeb rheoli yr ymunwyd ynddo o dan—

(i) adran 16 o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949(**3**);

(ii) adran 15 o Ddeddf Cefn Gwlad 1968(**4**);

(iii) adran 39 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981(**5**);

(b) mesur—

(i) a restrir yn Erthygl 96 o Reoliad 1698/2005;

(ii) y cyfeirir ato yn Nheitl III o'r Rheoliad Datblygu Gwledig.

(**1**) 1967 p.10, fel y'i diwygiwyd gan adran 46(3) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (p.37), a pharagraff 2 o Atodlen 4 i'r Ddeddf honno, a chan erthygl 4(1) o Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013 (O.S. 2013/755 (Cy.90)) a pharagraff 53 o Ran 1 o Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwnnw mewn perthynas â Chymru.

(**2**) Fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan erthygl 4(1) o Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013 (O.S. 2013/755 (Cy.90)) a pharagraff 64 o Ran 1 o Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwnnw.

(**3**) 1949 p.97, fel y'i diwygiwyd gan adran 105(1) o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (p.16), a pharagraff 14 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno, a chan a chan erthygl 4(1) o Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013 (O.S. 2013/755 (Cy.90)) a pharagraff 17 o Ran 1 o Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwnnw.

(**4**) 1968 p.41, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan erthygl 4(1) o Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013 (O.S. 2013/755 (Cy.90)) a pharagraff 95 o Ran 1 o Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwnnw.

(**5**) 1981 p.69, fel y'i diwygiwyd gan adran 96 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (p.37) and erthygl 4(1) o Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013 (O.S. 2013/755 (Cy.90)) a pharagraff 176 o Ran 1 o Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwnnw.

**Retention of landscape features - felling of trees**

**15.**—(1) A beneficiary must not fell a tree without the authority of a felling licence, in circumstances where a felling licence is required under section 9(1) of the Forestry Act 1967(**1**).

(2) A beneficiary must not, without reasonable excuse, fail to take any steps required by a notice given to him or her under section 24 of the Forestry Act 1967 (notice to require compliance with conditions or directions)(**2**).

# SCHEDULE 2

Regulation 13(2)

## Circumstances where a breach of Schedule 1 is not a non-compliance

**1.** Any action carried out under a commitment under—

(a) a management agreement entered into under—

(i) section 16 of the National Parks and Access to the Countryside Act 1949(**3**);

(ii) section 15 of the Countryside Act 1968(**4**);

(iii) section 39 of the Wildlife and Countryside Act 1981(**5**);

(b) a measure—

(i) listed in Article 96 of Regulation 1698/2005;

(ii) referred to in Title III of the Rural Development Regulation.

(**1**) 1967 c. 10, as amended by section 46(3) of, and paragraph 2 of Schedule 4 to, the Countryside and Rights of Way Act 2000 (2000 c. 37) and article 4(1) of, and paragraph 53 of Part 1 of Schedule 2 to, the Natural Resources Body for Wales (Functions) Order 2013 (S.I. 2013/755 (W. 90)) in relation to Wales.

(**2**) As last amended by article 4(1) of, and paragraph 64 of Part 1 of Schedule 2 to, the Natural Resources Body for Wales (Functions) Order 2013 (S.I. 2013/755 (W. 90)).

(**3**) 1949 c. 97, as amended by section 105(1) of, and paragraph 14 of Schedule 11 to, the Natural Environment and Rural Communities Act 2006 (2006 c. 16) and article 4(1) of, and paragraph 17 of Part 1 of Schedule 2 to, the Natural Resources Body for Wales (Functions) Order 2013 (S.I. 2013/755 (W. 90)).

(**4**) 1968 c. 41, as last amended by article 4(1) of, and paragraph 95 of Part 1 of Schedule 2 to, the Natural Resources Body for Wales (Functions) Order 2013 (S.I. 2013/755 (W. 90)).

(**5**) 1981 c. 69, as amended by section 96 of the Countryside and Rights of Way Act 2000 and article 4(1) of, and paragraph 176 of Part 1 of Schedule 2 to, the Natural Resources Body for Wales (Functions) Order 2013 (S.I. 2013/755 (W. 90)).

**2.** Unrhyw weithred a gyflawnir ar y tir—

(a) yn rhinwedd, neu mewn cysylltiad ag, unrhyw bŵer neu awdurdodiad a roddir gan neu o dan unrhyw ddeddfiad, ar yr amod y bydd y tir amaethyddol, ar ôl cwblhau'r weithred, mewn cyflwr amaethyddol ac amgylcheddol da at ddibenion Erthygl 4 o'r Rheoliad Llorweddol;

(b) er lles iechyd neu ddiogelwch pobl neu anifeiliaid;

(c) naill ai i alluogi trin achos difrifol o niwed i iechyd planhigion neu heigiad difrifol o unrhyw bla neu chwyn penodedig, neu i ganiatáu cymryd camau i atal datblygiad unrhyw achos niwed neu heigiad o'r fath.

# ATODLEN 3

Rheoliad 15(1)

## Dirymiadau

| *(1)* | *(2)* |
|---|---|
| *Rheoliadau a ddirymwyd* | *Cyfeirnodau* |
| Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Trawsgydymffurfio) (Cymru) 2004 | O.S. 2004/3280 (Cy. 284) |
| Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Trawsgydymffurfio) (Cymru) (Diwygio) 2005 | O.S. 2005/3367 (Cy. 264) |
| Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Trawsgydymffurfio) (Cymru) (Diwygio) 2006 | O.S. 2006/2831 (Cy. 252) |
| Rheoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2006 | O.S. 2006/3343 (Cy. 304) |
| Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin | O.S. 2007/970 (Cy. 87) |

**2.** Any action carried out on the land—

(a) by virtue of, or in connection with, any power or authorisation conferred by or under any enactment, provided that following completion of the action the agricultural land will be in good agricultural and environmental condition for the purposes of Article 94 of the Horizontal Regulation;

(b) in the interests of human or animal health or safety;

(c) either to enable a serious cause of harm to plant health or serious infestation of any pest or specified weed to be treated, or to permit measures to be taken to prevent the development of any such cause of harm or infestation.

# SCHEDULE 3

Regulation 15(1)

## Revocations

| *(1)* | *(2)* |
|---|---|
| *Regulations revoked* | *References* |
| The Common Agricultural Policy Single Payment and Support Schemes (Cross Compliance) (Wales) Regulations 2004 | S.I. 2004/3280 (W. 284) |
| The Common Agricultural Policy Single Payment and Support Schemes (Cross Compliance) (Wales) (Amendment) Regulations 2005 | S.I. 2005/3367 (W. 264) |
| The Common Agricultural Policy Single Payment and Support Schemes (Cross Compliance) (Wales) (Amendment) Regulations 2006 | S.I. 2006/2831 (W. 252) |
| Rural Development Programmes (Wales) Regulations 2006 | S.I. 2006/3343 (W. 304) |
| The Common Agricultural Policy Single Payment and Support Schemes (Cross Compliance) (Wales) (Amendment) | S.I. 2007/970 (W. 87) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| (Trawsgydymffurfio) (Cymru) (Diwygio) 2007 | | Regulations 2007 | |
| Rheoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) (Diwygio) 2009 | O.S. 2009/3270 (Cy. 287) | Rural Development Programmes (Wales) (Amendment) Regulations 2009 | S.I. 2009/3270 (W. 287) |
| Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Trawsgydymffurfio) (Cymru) (Diwygio) 2010 | O.S. 2010/38 (Cy. 11) | The Common Agricultural Policy Single Payment and Support Schemes (Cross Compliance) (Wales) (Amendment) Regulations 2010 | S.I. 2010/38 (W. 11) |
| Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2010 | O.S. 2010/1892 (Cy. 185) | The Common Agricultural Policy Single Payment and Support Schemes (Wales) Regulations 2010 | S.I. 2010/1892 (W. 185) |
| Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Trawsgydymffurfio) (Cymru) (Diwygio) 2011 | O.S. 2011/2941 (Cy. 317) | The Common Agricultural Policy Single Payment and Support Schemes (Cross Compliance) (Wales) (Amendment) Regulations 2011 | S.I. 2011/2941 (W. 317) |
| Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) (Diwygio) 2012 | O.S. 2012/3093 (Cy. 311) | The Common Agricultural Policy Single Payment and Support Schemes (Wales) (Amendment) Regulations 2012 | S.I. 2012/3093 (W. 311) |
| Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Trawsgydymffurfio) (Cymru) (Diwygio)2014 | O.S. 2014/371 (Cy. 39) | The Common Agricultural Policy Single Payment and Support Schemes (Cross Compliance) (Wales) (Amendment) Regulations 2014 | S.I. 2014/371 (W. 39) |

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2014

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2014

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

**2014 Rhif 3223 (Cy. 328)**

**AMAETHYDDIAETH, CYMRU**

Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Integredig Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

**2014 No. 3223 (W. 328)**

**AGRICULTURE, WALES**

The Common Agricultural Policy (Integrated Administration and Control System and Enforcement and Cross Compliance) (Wales) Regulations 2014

ISBN 978-0-348-11030-2

£6.00

W2165/12/14 ON